

CYNGOR SIR CEREDIGION

ADRODDIAD I'R: Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu

DYDDIAD: 01/02/24

TEITL: Adroddiad am Gyllideb ddrafft 24/25

PWRPAS YR ADRODDIAD: Ystyried Cyllideb ddrafft 24/25, a ystyriwyd gan y Cabinet ar 23/01/24

RHESWM Y MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN

AM Y WYBODAETH HON: Mae craffu yn rhan annatod o broses pennu'r gyllideb.

CEFNDIR:

Gofynnir i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ystyried yr adroddiad am y gyllideb a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 23/01/24. Bydd pob un o'r pedwar Pwyllgor Trosolwg a Chraffu thematig yn cael y cyfle i ystyried yr effaith ar y gwasanaethau sydd yn eu cylchoedd gwaith unigol pan fyddant yn cwrdd ar 08/02/24 a 09/02/24.

Mae'n bosib y bydd y Pwyllgor hwn yn dymuno ystyried y meysydd canlynol sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad A:

- a) Adran 3 – Setliad Ariannol Dros Dro Llywodraeth Cymru ar gyfer Ceredigion yn 24/25.
- b) Adran 4 – Ystyriaethau lefel uchel o ran y Gyllideb gan gynnwys:
 - Adran 4b) – Y Gyllideb Refeniw - Cyfanswm y Pwysau o ran Costau.
 - Adran 4d) – Y Gyllideb Refeniw – Cynigion o ran Gwneud Arbedion.
 - Adran 4f) – Cynnig y Cabinet ynghylch Premiymau Treth y Cyngor
 - Adran 4g) – Y sefyllfa bosibl o ran Treth y Cyngor
- c) Adran 5 – Y gofyniad o ran y Gyllideb Ddrafft
- d) Adran 6 – Risgiau i'r Gyllideb
- e) Adran 7 – Y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn arfaethedig
- f) Adran 8 – Cydnerthedd ariannol (gan gynnwys Cronfeydd wrth gefn a Balansau Cyffredinol)
- g) Adran 9 – Rhagolygon Ariannol y Tymor Canolig
- h) Yr 11 o argymhellion a gytunwyd gan y Cabinet ar 23/01/24.
- i) Unrhyw faterion eraill ynghylch y Gyllideb y mae'r Pwyllgor yn eu hystyried sy'n briodol.

ARGYMHELLION:

1. Ystyried sefyllfa gyffredinol y gyllideb yn unol â'r hyn a nodir yn yr adroddiad am y gyllideb yn Atodiad A.
2. Nodi y bydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn ystyried yr effaith ar y gwasanaethau sydd yn eu cylchoedd gwaith unigol ar 08/02/24 a 09/02/24.

3. Gwneud unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor yn credu sy'n briodol yng nghyswllt y Gyllideb, er mwyn i'r Cabinet eu hystyried ar 20/02/24.

RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:

Er mwyn cynorthwyo â pharatoi cyllideb gytbwys a sicrhau bod y gyllideb gyffredinol sy'n cael ei chynnig yn cael ei chraffu'n briodol.

Atodiad:	Papur A – Adroddiad ynghylch Cyllideb Ddrafft 24/25 (23/01/24)
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael
Dyddiad yr adroddiad:	23/01/24

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y cyfarfod: 23/01/24

Teitl: Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael ynghylch Cyllideb Refeniw 2024/25 a'r rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn

Pwrpas yr adroddiad: Ystyried y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch Cyllideb Refeniw Ddrafft 2024/25 a chael diweddariad ar y rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn.

Er Penderfyniad

Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:

Y Cynghorydd Bryan Davies Arweinydd y Cyngor

Y Cynghorydd Gareth Davies Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael

1. **Crynodeb Gweithredol**

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn agored mai ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 24/25 yw'r "*un fwyaf cyfyng a phoenus ers datganoli*". Cynnydd ariannol o 2.6% yn unig y mae Ceredigion wedi'i dderbyn (y 14eg o'r 22ain Awdurdod Lleol). Ceredigion hefyd sydd wedi derbyn y cynnydd isaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru gyfan. Dyma felly yw Cyllideb fwyaf cyfyng Cyngor Sir Ceredigion ac mae'n waeth nag a ragwelwyd yn flaenorol.

Y pennawd ynghylch Setliad Ariannol Dros Dro Llywodraeth Leol yn Lloegr oedd bod cynnydd cyffredinol o 6.5% mewn cyllid gyda £1 biliwn o gyllid grant ychwanegol ar gyfer Gofal Cymdeithasol o'i gymharu â 23/24. Gan fod Llywodraeth Cymru yn weinyddiaeth ddatganoledig, mae ganddi'r rhyddid i ddefnyddio ei harian fel y mynn. O ganlyniad mae nifer o benderfyniadau ynghylch polisïau gwahanol yn bodoli yng Nghymru o gymharu â Lloegr.

Mae canlyniad Setliad Ariannol Dros Dro Llywodraeth Leol, ynghyd ag amryw o grantiau unigol penodol yn cael eu torri, yn ogystal â phwysau costau sylweddol iawn ar wasanaethau, nad ydynt yn dangos unrhyw arwyddion o leihau, yn golygu nad yw hi bellach yn bosibl parhau i ddiogelu Gwasanaethau. Bellach mae penderfyniadau anodd iawn i'w gwneud o ran y gyllideb fel rhan o'r pwysu a mesur ynghylch sut a lle i leihau costau gwasanaethau'r Cyngor, ochr yn ochr ag ystyried y lefel briodol o gyllid i'w godi drwy'r Dreth Gyngor.

Dyma'r pwyntiau allweddol yn yr adroddiad hwn:

- Amcangyfrifir bod y **pwysau o ran y costau** refeniw diweddaraf y mae'r Cyngor yn eu hwynebu yn £18.1m digynsail, sy'n cyfateb i **ffactor chwyddiant penodol o 10.1% ar gyfer Ceredigion**. Mae hyn yn cymharu

â'r sefyllfa lle y mae chwyddiant yn gyffredinol yn rhedeg ar 3.9% (ffigwr CPI Tachwedd 2023). Felly mae angen dod o hyd i ddiffyg o £14.6m yn y gyllideb drwy gyfuniad o ystyriaethau ynghylch Gostyngiadau yn y Gyllideb a chodi'r Dreth Gyngor.

- Mae gofynion cystadleuol ar y **Rhaglen Gyfalaf** yn gwaethygu oherwydd gostyngiad mewn cyllid cyfalaf Craidd gan Lywodraeth Cymru. Mae lefel bresennol y cyllid cyfalaf craidd (£5.8m) yn dal yn is na'r hyn a dderbyniwyd dros 15 mlynedd yn ôl ac mae'n cynrychioli toriad **mewn termau real** o £5.1m (neu bron i 50%) dros y cyfnod hwnnw.
- Bydd y gost o barhau i gyflawni **polisi Llywodraeth Cymru** o sicrhau bod y **Cyflog Byw Gwirioneddol** (cynnydd o 10.1%) yn cael ei dalu i **staff Gofal Cymdeithasol cofrestredig** yn costio £0.9m ychwanegol i Geredigion ar gyfer 24/25. Dyma'r gost ychwanegol y tu hwnt i ariannu cynnydd sy'n gysylltiedig â'r Cyflog Byw Cenedlaethol ac mae'n rhan o gyfanswm pwysau'r costau amcangyfrifedig o £2.7m i ariannu chwyddiant sylfaenol ar wasanaethau Gofal Cymdeithasol a gomisiynwyd yn allanol (e.e. Gofal Cartref, Taliadau Uniongyrchol a lleoliadau preswyl i Bobl Hŷn).
- Mae'r galwadau a'r pwysau ar **gyllidebau sy'n ymwneud â Gofal Cymdeithasol** yn parhau i gynyddu - cyfanswm o tua £6.2m ar ben dyfarniadau cyflog gweithwyr a darpariaethau o ran chwyddiant sylfaenol ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir yn allanol.
- Mae **Llywodraeth y Deyrnas Unedig** yn parhau i gynyddu'r **Cyflog Byw Cenedlaethol** (cynnydd o 9.7%) ond mae hefyd yn parhau i beidio â darparu unrhyw gyllid ar gyfer hyn. Felly mae disgwyl i ddyfarniadau cyflog gweithwyr ar gyfer 24/25, nad ydynt yn cael eu pennu gan Gyngor Sir Ceredigion, barhau i gynyddu. Gyda phwysau costau amcangyfrifedig o tua £4.8m, mae hwn yn newidyn sylweddol iawn o ran y gyllideb. Mae'r dull tuag at Gyflog i'r gwrthwyneb i'r hyn a brofwyd yn ystod y cyfnod cyni blaenorol, pan mai dull George Osborne oedd gorfodi cyflogau, am sawl blwyddyn, i gael eu rhewi / gosod capiau cyflog o 1% arnynt, fel modd o reoli costau.
- Am yr ail flwyddyn yn olynol, mae cynnydd sylweddol wedi'i gynnig gan **Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru** ar gyfer yr **ardoll Tân** sy'n rhan o Gyllideb Cyngor Sir Ceredigion. Byddai'r cynnig presennol yn arwain at gynydd o 12% yng nghost ardoll tân presennol y Cyngor o £4.9m a byddai'n cyfateb i dros 1% ar Dreth y Cyngor.
- Mae effaith gudd ar y Gyllideb yn sgil **gostyngiad yng nghyllid grantiau penodol Llywodraeth Cymru**. Er enghraifft - mae toriad arfaethedig o dros 20% yng nghyllid y Gweithlu Gofal Cymdeithasol (colled ddangosol o £250k) yn ddryslyd ar adeg pan fo her sylweddol o ran recriwtio a chadw staff i'w gweld yn y sector Gofal Cymdeithasol.
- Er gwaethaf y setliad is na'r disgwyl, mae'r Cabinet yn dal i gynnig **cynyddu Cyllidebau Ysgolion Dirprwyedig gan 3.1%**, sef y senario a gyflwynwyd i Benaethiaid a Llywodraethwyr ddiwedd mis Medi diwethaf.

- Mae'r **Gofyniad drafft cyfredol ar y Gyllideb ar gyfer 24/25** yn gynydd iŵs (6.9%) na'r cynnydd yn y Gofyniad ar Gyllideb 23/24 (8.6%). Serch hynny, cynnydd o 2.6% yn unig a geir yn setliad Llywodraeth Cymru ar gyfer 24/25, o gymharu â 8.1% yn 23/24.
- **Lefel y Dreth Gyngor Band D bresennol yng Ngheredigion (i bob cydran) ar gyfer 23/24** yw £1,908, sydd ychydig yn uwch na'r Dreth Gyngor cyfartalog ar gyfer Band D yng Nghymru, sef £1,879. Mae lefelau Treth Gyngor cyfartalog yng Nghymru dal yn iŵs na'r cyfartaledd cyfatebol ar gyfer Awdurdodau Unedol yn Lloegr (£2,139 ar gyfer 23/24). Mae elfen bresennol y Cyngor Sir o Dreth Gyngor Band D 23/24 gwerth £1,553.60.
- Cytunodd y Cyngor yn ddiweddar i gynyddu premiymau Treth y Cyngor y gellir eu codi ar **Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag hirdymor**, yn weithredol o fis Ebrill 2024. Mae gan y penderfyniad hwn y potensial i gynorthwyo gyda Her y Gyllideb drwy osgoi cynnydd uwch eto yn Nhreth y Cyngor, os bydd yr Aelodau o'r un farn.
- Mae'r Cabinet yn ymwybodol bod tua 85% o'r holl anheddau trethadwy yng Ngheredigion yn perthyn i Fandiau A i E. Mae ffigurau cyfredol Cyllideb ddrafft 24/25 yn nodi **cynnydd posibl yn Nhreth y Cyngor (ar gyfer elfen Cyngor Sir Ceredigion) o ychydig yn fwy na £4 yr wythnos (neu £18 y mis)** ar gyfer eiddo Band D.
- Mae **gwaith pellach** yn mynd rhagddo i weld ymhle / os gellir gwneud gostyngiadau pellach yn y gyllideb i wella'r sefyllfa ymhellach. Mae'r broses Graffu ar y Gyllideb a chyfranogiad yr holl Aelodau yn rhan o'r broses hon.

Mae'n amlwg iawn o'r uchod nad yw cynnydd o 2.6% yng nghyllid craidd Llywodraeth Cymru, ynghyd â thoriadau mewn cyllid grant penodol gan Lywodraeth Cymru, yn darparu agos ddigon o gyllid i allu delio â rhannau sylweddol o gyllideb y Cyngor sy'n amodol ar chwyddiant ymhell uwchlaw lefelau CPI ac mewn sawl maes yn cyrraedd lefelau digid dwbl. Golyga hyn fod her anferthol o ran y gyllideb ac na ellir canolbwyntio bellach ar wneud pethau'n wahanol ac mewn modd arloesol, yn unig. Mae angen i'r Cyngor wneud arbedion sylweddol yn y Gyllideb, ac y mae angen iddynt gynnwys lleihau ac mewn rhai achosion dileu gwasanaethau'n llwyr.

Yn anffodus, nid yw'r sefyllfa hon yn debygol o gael ei chyfyngu i'r flwyddyn ariannol nesaf yn unig, oherwydd mae'r rhagolygon o ran cyllid cyhoeddus yn y tymor canolig bellach yn edrych hyd yn oed yn fwy llwm, er y ffaith bod Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig i'w gynnal yn 2024.

Wrth symud ymlaen, mae angen i Gyngor Sir Ceredigion ail-werthuso ei bwrpas a'i berthynas sylfaenol â'i drigolion i gynnwys dull gweithredu sylfaenol sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau statudol craidd, wedi'u seilio ar lefelau priodol o ymyrraeth.

Oni bai bod cyfnod newydd o rewi cyflogau a'r pwysau lleiaf posibl o ran costau Gofal Cymdeithasol, yna yn absenoldeb ail-werthuso ei bwrpas a'i ddull gweithredu, mae Cyngor Sir Ceredigion yn debygol iawn o fod yn anghynladwy yn ariannol yn y tymor canolig.

2. Cefndir

a) Gosod y Gyllideb ar gyfer 23/24

Bydd yr Aelodau'n cofio'r broses hynod heriol o osod Cyllideb 23/24 yr adeg hon y llynedd. Roedd yr agweddau allweddol yn cynnwys:

Elfen	22/23	23/24	Newid
Cyllid craidd Llywodraeth Cymru (drwy Setliad Llywodraeth Leol)	£119.4m	£129.1m	+8.1%
Gofyniad ar Gyllideb Cyngor Sir Ceredigion	£165.8m	£180.1m	+8.6%
Cyflog Byw Cenedlaethol fesul awr (a osodir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig)	£9.50	£10.42	+9.7%
Cyflog Byw Gwirioneddol fesul awr (a osodir gan y Sefydliad Cyflog Byw)	£9.90	£10.90	+10.1%

- Gyda pholisi Llywodraeth Cymru o staff Gofal Cymdeithasol cofrestredig yn cael eu talu o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol yng Nghymru, arweiniodd hyn at bwysau cyllidebol o dros £2.5m er mwyn darparu cyllid i ddarparwyr Gofal Cymdeithasol.
- Roedd cynnydd parhaus Llywodraeth y Deyrnas Unedig yng nghyfradd fesul awr y Cyflog Byw Cenedlaethol yn ffactor allweddol wrth i ddyfarniadau Cyflog Cenedlaethol gael eu codi am yr ail flwyddyn yn olynol. Cyfrannodd hyn at bwysau o ran costau ar gyllidebau Cyflog Gweithwyr o £6.4m ar gyfer 23/24. Ar ben hyn, roedd diffyg yn y gyllideb yn sgil dyfarniad cyflog gwirioneddol 22/23 a oedd yn gofyn am addasiad yn y gyllideb sylfaenol o £3.1m.
- Gwelwyd chwyddiant sylweddol ar gontractau Ynni - gan gostio tua £1.4m.
- Yn ychwanegol at y dyfarniadau Cyflog Byw a dyfarniadau Cyflog Gweithwyr, roedd y pwysau o ran costau Gofal Cymdeithasol yn sylweddol ar £5.2m.
- Roedd cynnydd o 12.4% yn ardoll Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, a oedd yn cyfateb i gynnydd o 1.3% yn y Dreth Gyngor Band D.
- Yn gyffredinol – roedd cyfanswm y pwysau o ran y costau a brofwyd gan y Cyngor yn £22.2m ac yn cyfateb i bennawd cyfradd chwyddiant o 13.4%.

I grynhoi, roedd Cyllideb 23/24 yn heriol dros ben, ond roedd y cynnydd o 8.1% yng nghyllid Llywodraeth Cymru yn caniatáu i wasanaethau gael eu diogelu, i raddau helaeth, ar gyfer trigolion Ceredigion.

b) Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

Diweddarwyd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ym mis Mehefin 2023 ac aeth drwy'r broses ddemocrataidd rhwng Gorffennaf a Medi 2023. Ar gyfer

24/25 roedd yn seiliedig ar achos canolog o gynnydd o 3.1% yng nghyllid Llywodraeth Cymru a chyda senario o ran Treth y Cyngor wedi'i fodelu ar 5%.

O ganlyniad, **rhagwelwyd bwlch dangosol o £8.5m yn y Gyllideb ar gyfer 24/25**, fel rhan o gyfanswm bwlch dangosol yn y Gyllideb o £15.9m ar draws y cyfnod o 3 blynedd o 24/25 i 26/27. Bryd hynny roedd disgwyl i bwysau ar y Gyllideb ddechrau llacio yn ôl i oddeutu £15.1m ar gyfer 24/25 wrth i chwyddiant ddechrau gostwng. Mewn gwirionedd, nid yw'r pwysau cyllidebol wedi lleihau i unrhyw beth tebyg i'r hyn â ddisgwyliwyd yn dilyn lefelau 23/24.

c) Y Sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn 23/24

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r sefyllfa ariannol hynod heriol yn ystod y flwyddyn. Adroddwyd am sefyllfa refeniw Chwarter 2 hyd at 30/09/23 i'r Cabinet ar 05/12/23. Yn gwyno:

- **Rhagwelir mai'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn fydd gorwariant o £2.7m** - sef 1.5% o gyllideb refeniw 23/24 o £180.1m.
- Roedd hyn ar ôl ystyried camau lliniaru amrywiol gwerth cyfanswm o £3.8m. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio arian wrth gefn wedi'i glustnodi i ddelio â materion penodol (£3.451m) a defnyddio'r holl Arian Wrth Gefn a neilltuwyd ar gyfer Cyflogau / Ynni (£360k).

Roedd y prif heriau yn cynnwys:

- Dyfarniadau Cyflog Cenedlaethol yn cael eu codi, yn anfforddiadwy ac yn uwch na'r ddarpariaeth o ran y gyllideb.
- Cynnydd sylweddol mewn costau Cludiant Dysgwyr o'r Cartref i'r Ysgol.
- Cynnydd sylweddol yn nifer y lleoliadau Plant y Tu Allan i'r Sir.
- Costau sylweddol yn ymwneud â staff asiantaeth yng Nghartrefi Preswyl ein Hawdurdod Lleol, yn y Gwasanaeth Galluogi ac yn rolau Gweithwyr Cymdeithasol statudol.
- Cynnydd sylweddol yn nifer y lleoliadau Gofal Cymdeithasol i Bobl Hŷn.
- Gwaethygodd y sefyllfa sylfaenol o fewn y Gwasanaethau Gydol Oed yn y Pyrth yn sylweddol rhwng Chwarter 1 a Chwarter 2 o dros £1.2m.

3. Y Setliad Ariannol Dros Dro ar gyfer Llywodraeth Leol

Cyhoeddwyd Setliad Ariannol Dros Dro 24/25 ar gyfer Llywodraeth Leol gan Lywodraeth Cymru ar 20/12/23. Mae Atodiad 1 yn cynnwys llythyr eglurhaol y Gweinidog. Gellir dod o hyd i fanylion llawn y Setliad drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

[Setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol: dros dro 2024 i 2025 | LLYW.CYMRU](#)

Ar 11/01/24, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fod yna fân anghysondeb yn y Setliad Dros Dro a oedd yn effeithio'n bennaf ar Fro Morgannwg. Newidiodd dyraniad refeniw'r Cyngor ychydig yn llai na £1k a chafwyd cynnydd o £6k yn y dyraniad Cyfalaf.

Mae'r rhan ganlynol yn amlinellu'r prif ganlyniadau i Geredigion:

a) Cyllid Refeniw

£132.7m yw'r Cyllid Allanol Cyfanredol (AEF) a ddyrannwyd i Geredigion ar gyfer 24/25 o'i gymharu â £129.3m ar gyfer 23/24. Mae hwn yn godiad ariannol o ychydig o dan £3.4m, **gyda Ceredigion yn y 14eg safle o'r 22ain Awdurdod Lleol yng Nghymru. Gyda chynnydd o 2.6%, mae hyn ymhell islaw cyfartaledd Cymru ac yn is na'r disgwyl.**

Dengys Atodiad 2 y tebygrwydd am gynnydd tebyg i holl awdurdodau Cymru, sy'n amrywio o 4.7% (Casnewydd) i 2.0% (Gwynedd a Chonwy) gyda chynnydd cyfartalog o 3.1% a chyfanswm cyllid AEF ledled Cymru o ychydig o dan £5.7bn. Cafodd Cyngorau Gwynedd a Chonwy eu diogelu drwy gyllid gwaelodol o 2.0%, ac ychwanegodd Llywodraeth Cymru £1.3m o gyllid at y Setliad.

Ar hyn o bryd nid oes trosglwyddiadau grant / cyllid wedi'u gwneud i Setliad Dros Dro 24/25. Fodd bynnag, mae llythyr eglurhaol y Gweinidog yn cyfeirio at y canlynol:

"Mae ein rhaglen waith i leihau nifer y grantiau unigol a delir i awdurdodau lleol o 2024-25 ac i symud grantiau i'r setliad wedi'i ddadneilltuo, yn mynd rhagddo...Mae'r gwaith hwn yn parhau ac rwy'n disgwyl i fwy o newidiadau gael eu cyflwyno fel rhan o'r setliad terfynol".

Mae canlyniad setliad Ceredigion yn adlewyrchu amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys:

- **Mae Ceredigion yn safle 22 allan o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru mewn perthynas â'r cynnydd mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru fesul pen y boblogaeth.** Mae Ceredigion wedi gweld cynnydd o £36 y pen - gan fynd o £1,817 i £1,853 y pen. Mae hyn yn sylweddol is na'r 3 chynghor yn y safleoedd cyntaf yng Nghymru:

Safle	Cyngor	LIC 24/25 AEF y pen	Cynnydd LIC fesul pen
1	Merthyr Tydfil	£2,088	£105
2	Gwynedd	£1,974	£100
3	Blaenau Gwent	£2,140	£90

- Mae newidiadau o ran data **Rhifau Disgyblion** Ceredigion yn cyfrif am ostyngiad o £163k. Mae'r niferoedd Meithrin a Chynradd wedi gostwng 0.4% i 4,929, tra bod y niferoedd uwchradd (BI 7-11) wedi cynyddu 0.9% i 3,630. Mae hyn yn adlewyrchu tuedd genedlaethol barhaus o nifer y disgyblion Uwchradd yn cynyddu a niferoedd y disgyblion Meithrin a Chynradd yn gostwng.
- Mae newidiadau ym **mhoblogaeth** Ceredigion yn cyfrif am ostyngiad o £64k. Dim ond newid cymedrol yw hwn, yn bennaf oherwydd bod poblogaeth Ceredigion ar lefel gyffredinol yn dangos cynnydd o 0.6% rhwng y setiau data a ddefnyddiwyd ar gyfer Setliad 2023/24 (71,188 - sef cyfartaledd amcanestyniadau poblogaeth 2018 ar gyfer 2023 a Chyfrifiad 2021) a Setliad 2024/25 (71,610 - sef yr amcangyfrif ar gyfer canol blwyddyn 2022).

Mae llythyr eglurhaol y Gweinidog yn cynnwys cyfeiriadau at y canlynol:

- Mae'r costau o ran galluogi Awdurdodau i barhau i gwrdd â'r costau ychwanegol o gyflwyno'r **Cyflog Byw Gwirioneddol** i weithwyr Gofal yng Nghymru wedi'u cynnwys yn y Setliad.
- Rhaid bod cynllunio ar gyfer cyllideb awdurdodau yn darparu ar gyfer cytundeb **cyflog athrawon** 2024/25 (ond heb unrhyw gyllid ychwanegol nac unrhyw grantiau yn cael eu trosglwyddo i'r setliad o 23/24).
- Mae'r **Lluosydd Ardrethi Busnes** yn cynyddu i 5% (ar ôl cael ei rewi yn flaenorol).
- Disgwylir y bydd Llywodraeth y DU yn darparu cyllid ar gyfer cynnydd yng nghyfraniadau Cyflogwyr at **Bensiynau Athrawon a Diffoddwyr Tân**, ond nid tan 24/25. Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys i bwysu am sicrwydd ynghylch lefel ac amseriad y cyllid hwn.

Yn olaf, gyda Llywodraeth Cymru yn datgan y canlynol yng Nghyllideb Ddrafft eu hunain ar gyfer 24/25:

“Nid yw ein setliad ariannu yn ddigonol i ymateb i'r pwysau eithriadol sydd ar Gymru” ac “mae hon yn gyllideb anodd mewn cyfnod eithriadol...yr un sydd wedi cyflwyno'r dewisiadau mwyaf cyfyng a phoenus ers datganoli”.

Mae llythyr y Gweinidog hefyd yn cynnwys y canlynol:

“Nid wyf o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth Cymru osod lefel fypwyl o gynnydd yn y dreth gyngor waeth beth fo'r amgylchiadau neu ddewisiadau lleol. Bydd angen i Awdurdodau ystyried yr ystod lawn o ffynonellau cyllid sydd ar gael iddynt, yn ogystal â'r pwysau sy'n eu hwynebu. Rwy'n eich annog i barhau i bwysu a mesur yn ofalus effaith y cynnydd ar gyllid aelwydydd gyda cholli cymorth a gwasanaethau”.

b) Cyllid Cyfalaf

Mae'r **Cyllid Cyfalaf Cyffredinol** wedi aros yn wastad ar draws Cymru ar £180m. Dyraniad Cyfalaf Cyffredinol 24/25 ar gyfer Ceredigion yw £5.854m, sy'n **ostyngiad o £6k** o ddyraniad 23/24 o £5.860m. Rhennir y dyraniad yn Fenthyca â Chymorth o £2.888m a Grant Cyfalaf Cyffredinol o £2.966m.

Mae lefelau'r cyllid cyfalaf yn parhau i fod ymhell o'r uchafsymiau o £7m a welwyd cyn y cyfnod cyni (lefel 2008/09), gyda dyraniadau gwastad yn awr yn creu llusgo cyllidol pellach oherwydd effaith cyfansawdd chwyddiant sy'n lleihau pŵer prynu / gwario yn sylweddol. Pe bai'r £7m wedi parhau ac wedi cadw ar yr un raddfa â chwyddiant cyffredinol, byddai bellach yn werth tua £11m. Mae hyn yn golygu bod cyllid cyfalaf craidd y Cyngor wedi cael ei leihau ryw £5m, o'i gymharu â llai na £6m ar gyfer 2024/25, dros y 15 mlynedd diwethaf - sydd bron yn 50% mewn termau real.

c) Grantiau Penodol

Yn ogystal â chyllid y Setliad Refeniw a Chyfalaf craidd heb ei neilltuo, cyhoeddir grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru ar wahanol adegau a bydd pob un yn dod â'u cynigion grant unigol eu hunain gyda thelerau ac amodau penodol.

Mae cyhoeddiadau eisoes yn dechrau cael eu gwneud gan adrannau unigol Llywodraeth Cymru ac mae'n eithaf clir bod effaith gudd bellach ar y gyllideb, gyda lefelau grantiau penodol yn cael eu cwtdgi / lleihau mewn sawl man. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r sefyllfaoedd canlynol yn hysbys:

SAC / Gwasanaeth	Enw'r Grant (grantiau refeniw i gyd)	Grant 23/24 £'000	Dangosol 24/25 £'000	Statws
Porth Cynnal	Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol	1,030	780	-22% Yn ei ddisgwyll
Yr Economi ac Adfywio	HELIX – Canolfan Bwyd Cymru	1,206	1,109	-8% Wedi cael gwybod
Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	Grant Cymorth Cyflogaeth	330	I'w gadarnhau	-38% I'w gadarnhau
PCC	Chwaraeon Cymru (amrywiol)	196	184	Wedi cael gwybod bod angen cynllunio ar gyfer -5% i -7%

Yn ogystal, mae cryn resymoli a chyfuno grantiau Addysg cyn 16 oed. O fis Ebrill 2024, bydd amryw o grantiau Addysg yn cael eu cyfuno yn 4 prif liny— Safonau Ysgolion, Ecwiti, Diwygio a Chymraeg 2050. Bydd y dull newydd hwn yn disodli hyd at 17 o ffrydiau grantiau presennol (e.e. grant Datblygu Disgyblion, grant Meithrin y Cyfnod Sylfaen, Grant Gwella Addysg, Grant Adennill Safonau, Grant Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, Grant Ysgolion gyda Ffocws Cymunedol, Grant Cymraeg mewn Addysg). Mae'r agweddau gweithredol manwl, sy'n hanfodol er mwyn gallu darparu gwybodaeth ar gyfer Cyllidebau Ysgolion, yn dal yn cael eu cadarnhau gan Lywodraeth Cymru.

Ar hyn o bryd mae cyfnod ymgynghori o 6 wythnos, sy'n cau ar 31/01/24, yn dilyn cyhoeddiad y Setliad Dros Dro. Mae ymateb ffurfiol gan Geredigion yn cael ei baratoi a bydd hwn yn cael ei rannu gyda'r holl Aelodau maes o law.

4. Ystyriaethau o ran y Gyllideb

Mae model y Gyllideb yn cael ei phriodoli yn ôl lefel y cyllid allanol sydd ar gael, lefel y pwysau o ran y Costau y mae Gwasanaethau yn eu hwynebu, a'r diffyg canlyniadol y mae angen ei fodloni trwy gyfrwng cyfuniad o ystyriaethau ynghylch Arbedion i'r Gyllideb a chodiadau i'r Dreth Gyngor.

Y gofyniad o ran Cyllideb y Cyngor yn 23/24 oedd £180.1m ac mae hyn yn ariannu ymhell dros 100 o wasanaethau gwahanol i drigolion Ceredigion. Mae Treth y Cyngor yn dreth gyffredinol sy'n seiliedig ar werth eiddo ac nid yw'n gweithredu ar sail Gwasanaeth talu a defnyddio. Bydd preswylwyr yn gweld ac yn defnyddio gwahanol wasanaethau'r Cyngor ar wahanol adegau yn eu bywydau:

- Bydd hyn yn dechrau gyda chofrestru genedigaeth ac yna'n symud ymlaen i gynnwys addysg Meithrin, Cynradd ac Uwchradd ac addysg Ôl-16-boed hynny'n addysg chweched dosbarth neu'n hyfforddiant galwedigaethol. Darperir hefyd Wasanaethau Cerdd a Gwasanaethau Ieuentid.
- Fel oedolyn, gall hyn gynnwys defnyddio canolfannau Chwaraeon, defnyddio Llyfrgell, cerdded llwybr Arfordir Ceredigion (a hawliau tramwy cyhoeddus eraill), cofrestru i bleidleisio mewn Etholiad, cyflwyno cais Rheoliadau Cynllunio neu Adeiladu, bwyta mewn sefydliadau bwyd diogel a rheoledig, mynychu Amgueddfa neu Theatr y Cyngor, casglu eich sbwriel (ac yna ei waredu neu ei ailgylchu), defnyddio gwasanaeth Bws cyhoeddus, goleuadau stryd ynghynn ar eich stryd a'r gallu i alw'r Gwasanaeth Tân ac Achub mewn argyfwng.
- Yn ddiweddarach, bydd preswilydd yn elwa o brisiau tocynnau teithio rhatach, ond yn y pen draw efallai y bydd angen mynediad at wasanaethau Gofal a Chymorth (gan ddefnyddio staff gofal cymdeithasol gwerthfawr sy'n derbyn cyflog sydd o leiaf yn Gyflog Byw Gwirioneddol yng Nghymru). Gall hyn gynnwys cefnogaeth a chyfarpar, cyfleoedd i fyw'n Annibynnol, gofal yn y cartref a lle mewn Cartref Gofal Preswyl. Gall hefyd gynnwys Gwasanaeth y Crwner a chofrestru marwolaeth.

Mae'r wybodaeth ganlynol yn adlewyrchu'r ystyriaethau diweddaraf o ran y Gyllideb ddrafft ddiweddaraf ar 15/01/24. Oherwydd maint yr her ariannol, mae gwaith pellach yn parhau.

a) Cyllid sydd ar Gael

Ceir cynnydd ariannol o £3.5m yn Setliad Llywodraeth Cymru os cymharir ffigwr Setliad Terfynol 23/24 (£129.2m) â ffigwr y Setliad Dros Dro (£132.7m).

b) Pwysau o ran y Costau

Gwnaethpwyd gwaith iteradd manwl i nodi ac asesu'r pwysau cost anochel a fydd yn wynebu'r holl wasanaethau, yn ogystal â'r agweddau sy'n cael eu hystyried fel eitemau Corfforaethol.

Mae'r gwaith hwn wedi nodi gwerth £18.1m fel pwysau o ran costau, heb gynnwys unrhyw ddarpariaeth o Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (sy'n amrywio mewn cysylltiad â lefel Treth y Cyngor), sy'n cyfateb i 10.1% o Gyllideb 23/24. Mae'r lefel hon yn is na'r hyn a welwyd yng Nghyllideb 23/24 ond mae'n dal i fod ar lefelau anghyffredin ac yn uwch na'r swm o £15.1m a ragwelwyd yn Strategaeth Ariannol y Tymor Canolig. Mae hyn yn cymharu â chwyddiant cyffredin sy'n 3.9% ar hyn o bryd (ffigwr CPI mis Tachwedd 2023). Yn ystod y cyfnod 'arferol' cyn Covid, roedd y pwysau o ran y costau tua £8m ac yn werth tua 6% o'r gyllideb net.

Mae modd cynnig y crynodeb canlynol o'r pwysau a wynebir o ran y costau, a dangosir manylion ategol pellach yn Atodiad 3:

	£'000	
<u>Costau sy'n gysylltiedig â Chyflogeion</u>		
Diffyg Dyfarniadau Cyflog 23/24 yn erbyn Darpariaeth yn y Gyllideb Sylfaenol	899	
Costau Dyfarniadau Cyflog Rhagdybiedig 24/25	4,812	
Pwysau o ran Costau Gweithwyr Priffyrdd a'r Amgylchedd	375	
Costau Gweithwyr Eraill	35	
	6,121	34%
<u>Costau sy'n gysylltiedig ag Eiddo a Thrafnidiaeth</u>		
Chwyddiant sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth	884	
Cyfraddau busnes	177	
	1,061	6%
<u>Materion eraill sy'n gysylltiedig â Gofal Cymdeithasol</u>		
Darpariaeth ar gyfer ymgodiadau ar gyfer Gwasanaethau a Gomisiynir yn Allanol	2,782	
Mwy o alwadau am Wasanaeth	2,470	
Dod â Chartref Gofal Hafan y Waun, Aberystwyth o dan adain y Cyngor	1,100	
Lleoliadau tu allan i'r sir / darpariaeth o fewn y sir	2,262	
	8,614	48%
<u>Eitemau Eraill</u>		
Chwyddiant Contractau / Cyflenwadau a Gwasanaethau Eraill	988	5%
Colli incwm a/neu gyllid grant	408	2%
Eitemau Corfforaethol	911	5%
	18,103	
Pwysau o ran Costau Net		

Mae hyn yn dangos y canlynol:

- i) **Mae costau sy'n gysylltiedig â gweithwyr yn ffactor sylweddol iawn sef tua 34% o gyfanswm y pwysau sy'n ymwneud â chostau.** Mae hyn yn rhannol oherwydd y dyfarniadau Cyflog cenedlaethol sydd bellach wedi'u cadarnhau ar gyfer 23/24 ond a oedd am yr 2il flwyddyn yn olynol yn uwch na'r ddarpariaeth yn y Gyllideb sylfaenol.

6.5% oedd Dyfarniad Cyflog yr athrawon (roedd 1.5% o'r ffigwr hwn yn gyllid anghylchol). Ni wnaeth Llywodraeth Cymru ariannu'r dyfarniad

cyflog hwn yn llawn (ariannwyd 92% ar y mwyaf) ac nid ydynt wedi trosglwyddo unrhyw gyllid grant i'r Setliad Dros Dro ar gyfer Cyflog Athrawon. Mae Dyfarniad Cyflog cyffredinol y Cyngor wedi'i osod ar £1,925 hyd at SCP44 (sy'n cyfateb i gynnydd o 9.4% ar y raddfa isaf), cynnydd o 3.88% i weithwyr sydd ar gyflogau sy'n uwch na'r lefel hwn a chynnydd o 3.5% ar gyfer Prif Swyddogion. Dros y 2 flynedd ddiwethaf, mae staff ar y radd gyflog isaf wedi gweld codiad cyflog o 20.8% ac amcangyfrifir y bydd yn codi i gynnydd o 27.3% dros y 3 blynedd -os bydd rhagdybiaethau Dyfarniad Cyflog 24/25 yn dwyn ffrwyth.

Nid yw'r broses ar gyfer y Dyfarniad Cyflog Cenedlaethol ar gyfer 24/25 wedi dechrau eto, felly mae amcangyfrif o'r ddarpariaeth wedi ei wneud. Fodd bynnag, mae hyn yn cael ei yrru i raddau helaeth gan gynnydd parhaus Llywodraeth y DU i'r Cyflog Byw Cenedlaethol (cynnydd o 9.7% i £11.44 yr awr o fis Medi 2024), lle nad oes unrhyw arian uniongyrchol yn cael ei ddarparu ar ei gyfer. Mae disgwyl felly i Ddyfarniadau Cyflog barhau i gynyddu ond yn is na lefelau 22/23 a 23/24.

Nid yw'r Cyngor yn pennu Dyfarniadau Cyflog cyflogeion, ac nid yw'n cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch dyfarniadau cyflog ychwaith. Llywodraeth Cymru sy'n gwneud hyn mewn perthynas â Chyflogau Athrawon a chorff Cyflogwyr Llywodraeth Leol y DU sy'n gwneud hyn mewn perthynas â staff cyffredinol y Cyngor.

ii) **Mae'r pwysau o ran y costau ym maes gofal cymdeithasol yn parhau'n sylweddol sef ychydig o dan 48% o gyfanswm y pwysau o ran y costau – sefyllfa debygol i gyllideb 23/24**

Mae £2.8m o hwn yn gysylltiedig â chyllid ar gyfer gwasanaethau a gomisiynwyd yn allanol, gydag elfen fawr yn ymwneud ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru bod gweithwyr Gofal Cymdeithasol Cofrestredig yn derbyn y Cyflog Byw Gwirioneddol yng Nghymru sydd wedi codi o £10.90 i £12.00 yr awr (cynnydd o 10%). Os byddai Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r Cyflog Byw Cenedlaethol (£11.44 yr awr) yn lle hynny, byddai hyn wedi golygu gostyngiad o £0.9m yn y pwysau o ran costau. Mae angen trosglwyddo'r cyllid i ddarparwyr yn y sector breifat ac mae hyn yn arwain at godiadau chwyddiant dros dro o 7.92% ar gyfer Gofal Cartref a Byw â Chymorth, 8.89% ar gyfer Gofal Preswyl a 9.57% ar gyfer Taliadau Uniongyrchol.

Mae'r cynnydd yn y galwadau am wasanaeth hefyd i'w weld yng nghostau'r Asiantaeth Maethu Annibynnol, y costau o ran Plant ar eu Pennau eu Hunain sy'n Ceisio Lloches a chostau lleoliadau yn y meysydd Dysgu ac Anabledd Corfforol, Iechyd Meddwl a Phobl hŷn. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnig gwneud toriad o ryw 22% yng ngrant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol y mae pob Awdurdod Lleol yng Nghymru yn ei dderbyn. Mae hyn yn annealladwy ar adeg pan geir heriau recriwtio ac mae hyn yn arwain at bwysau o £250k o ran cost.

Mae dod â Chartref Gofal Hafan y Waun, Aberystwyth o dan adain y Cyngor yn creu pwysau o ran costau yn sgil trosglwyddo'r staff i delerau ac amodau'r Cyngor sy'n cynnwys mynediad at Gronfa Bensiwn Dyfed ac ychwanegiadau uwch ar gyfer gweithwyr sy'n gweithio sifftiau nos, dros benwythnosau ac ar wyliau banc. Mae'r £1.1m sydd wedi'i nodi yn cynnwys tua £0.4m o gyllid wrth gefn. Doedd caniatáu i'r Cartref Gofal gau ddim yn realistig a byddai wedi golygu y byddai rhan fwyaf y preswylwyr wedi gorfod symud i gartrefi y tu allan i'r sir. Mae ystod eang o gyfleoedd ar y gorwel i ddefnyddio adeilad nad ydyw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol ar hyn o bryd, felly bydd hyn yn creu'r cyfle i leihau'r pwysau o ran cost. Adlewyrchir hyn yn y cynigion ar gyfer gwneud Gostyngiadau i'r Gyllideb, ond mae'n annhebygol iawn o gael gwared â'r pwysau o ran costau yn gyfan gwbl.

Er y bu cynnydd sylweddol hefyd yn y costau o ran lleoli Plant y Tu Allan i'r Sir (nifer isel ond cost unigol uchel), dylai'r strategaeth newydd o greu darpariaeth sirol gynhyrchu arbedion yn y pen draw, ond mae'r cynnydd mewn niferoedd sy'n cael eu lleoli lawer yn uwch nag unrhyw arbedion y byddai modd eu gwneud.

- iii) **Cyfanswm y pwysau o ran costau sy'n gysylltiedig â Chyllideb Ddirprwyedig yr Ysgolion** yw £3.1m (sy'n cyfateb i tua 6.5% o gyllideb Ddirprwyedig yr Ysgolion sy'n £47m). Mae bron i 90% o'r pwysau o ran costau yn ymwneud â'r Dyfarniadau Cyflog. Mae'r cynnydd yng Nghyfradd y Cyflogwr o ran Pensiwn Athrawon o Ebrill 2024 (cynnydd o 23.6% i 28.6%) wedi effeithio ar bethau. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 21% i'r cyflogwyr. Mae'r Gweinidog wedi datgan yn ei llythyr ynghylch y Setliad Dros Dro fod disgwyl i gyllid ar gyfer hyn gael ei ddarparu gan Lywodraeth y DU, felly mae rhagdybiaeth yn cael ei gwneud y bydd cyllid grant o tua £1.4m ar gael ar gyfer yr elfen hon yn 24/25.

£5.1m oedd cyfanswm y Balansau Ysgolion ar 31/03/23 a rhagwelir y bydd y rhain yn gostwng i £2.5m ar 31/03/24. Cyn Covid, roedd balansau'r Ysgolion fel arfer tua £1.8m i gyd.

Cafodd y Penaethiaid a'r Llywodraethwyr eu cynghori ddiwedd mis Medi bod angen iddynt gynllunio gan dybio y byddent yn derbyn cynnydd o 3.1%, yn amodol ar newidiadau yn nifer y disgyblion yn yr ysgolion unigol. Er mai dim ond cynnydd o 2.6% y mae Setliad Dros Dro Llywodraeth Cymru yn ei roi, mae dal yn fwriad i ddarparu cynnydd o 3.1% ar gyfer Cyllidebau Dirprwyedig yr Ysgolion.

Er y bydd y lefel hon o gynnydd yn heriol i ysgolion, gwnaed dadansoddiad pellach i adolygu sut y mae lefel graidd y staff a ddarperir gan y system ariannu fformiwla yn cymharu â'r lefelau staffio presennol. O ystyried y cyfyngiadau cyllido cyffredinol o du Llywodraeth Cymru, mae hyn hefyd yn dangos nad yw'r seilwaith presennol yn ei gyfanrwydd o ran yr ysgolion yn hyfyw yn ei ffurf bresennol dros y tymor canolig.

iv) **Mae Eitemau Corfforaethol yn cyfateb i tua 5% o'r pwysau o ran costau.** Y prif elfennau yw:

- Costau ariannu'r Rhaglen Gyfalaf o ran Benthycia â Chymorth Llywodraeth Cymru (£220k)
- Ardoll Tân - Cynnydd arfaethedig o 12% (£584k) o ganlyniad i gyfran Ceredigion o Gyllideb Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Noder - Mae hyn yn dal i fod yn amodol ar gymeradwyaeth ffurfiol a gall leihau £87k arall (i £497k) mewn perthynas â chyllid tybiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer costau Pensiwn Diffoddwyr Tân. Byddai effaith ariannol cynnydd o £497k yn dal i olygu cynnydd o fwy nag 1% yn Nhreth y Cyngor.

Corff sy'n gosod ardoll yw'r Awdurdod Tân ac nid corff praeseptio fel yn achos Awdurdod yr Heddlu ac felly dyma pam y mae'n ymddangos o dan Gyllideb Cyngor Sir Ceredigion.

- Nid oes unrhyw ffigur wedi'i gynnwys ar hyn o bryd ar gyfer costau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae'r swm yn amrywio gan ddibynnu ar y penderfyniadau terfynol a wneir o ran y Dreth Gyngor ac mae pob cynnydd o 1% yn Nhreth y Cyngor yn ychwanegu cost o tua £65k i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

Mae crynodeb o'r pwysau o ran costau sydd i'w weld yn Atodiad 4 yn rhoi sylw i'r math o pwysau a wynebir a'r gwasanaethau sy'n wynebu'r pwysau hyn.

c) **Diffyg yn y Gyllideb**

Mae'r diffyg rhwng y cyllid sydd ar gael a'r pwysau o ran costau ar hyn o bryd oddeutu £14.6m:

	<u>£'000</u>
<u>Pwysau o ran Costau</u>	
Pwysau o ran Costau Gwasanaeth	17,192
Pwysau o ran Costau Corfforaethol	911
	18,103
<u>Tynnu i ffwrdd y cyllid sydd ar gael</u>	
Cynnydd yn y Cyllid o ran Cyllid Allanol Cyfun (AEF) Llywodraeth Cymru	-3,522
Diffyg Cychwynnol yn y Gyllideb	14,581

d) **Gostyngiadau i'r Gyllideb**

Rhoddyd syniad o raddfa'r her ariannol yn niweddariad y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Yn anffodus, mae'r sefyllfa wedi gwaethygu ers hynny oherwydd bod yna bwysau parhaol o ran costau yn ystod y flwyddyn ariannol a bod setliad Llywodraeth Cymru yn is.

Y prif opsiwn ar gyfer gwneud gostyngiadau i'r Gyllideb yw Cynyddu Incwm (e.e. trwy Ffioedd a Chodi Tâl) neu ostwng Gwariant (e.e. trwy leihau neu ddileu gweithgareddau gwasanaethau, torri gwariant, gwneud enillion effeithlonrwydd parhaus neu ddarparu gwasanaethau mewn modd gwahanol neu mewn ffyrdd mwy arloesol). Ymdrinnir â Threth y Cyngor a Phremiwm Treth y Cyngor ar wahân.

Mae nifer o ddulliau wedi cael eu mabwysiadu yn ystod y 4 mis diwethaf i gydnabod yr her ariannol;

- Mae'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol wedi bod yn rhan o broses Her y Gyllideb wrth lunio eu Cyllidebau.
- Mae Cyllidebau Diweddaraf 23/24 wedi'u dadansoddi gan ystyried y Gwasanaethau Statudol ac Anstatudol.
- Mae'r Grŵp Arweiniol wedi cynnal sesiynau Gweithdy'r Gyllideb ac mae 'Cyllidebau' yn eitem sefydlog ar agenda wythnosol y Grŵp Arweiniol. Mae'r Grŵp yn treulio llawer o amser yn trafod y mater hwn mewn cyfarfodydd.
- Mae Rheolwyr Corfforaethol wedi'u briffio'n llawn ar Her y Gyllideb.
- Mae 4 Gweithdy am y Gyllideb wedi'u cynnal ar gyfer yr Aelodau. Mae hyn wedi cynnwys y cyfle i'r holl Aelodau gyflwyno eu barn a'u cynigion a chynhaliwyd arolwg yn y fan a'r lle i gael eu barn am fwy na 75 o gynigion.
- Mae Sesiynau am y Gyllideb wedi'u cynnal gyda'r Arweinydd a'r Cabinet.
- Mae cyfle i bob aelod o staff 'Ddweud eu Dweud' a chyfrannu ymhellach at syniadau.

O ganlyniad ystyriwyd rhestr hir o gynigion ar gyfer gwneud gostyngiadau yn y gyllideb ac mae'r hyn sydd bellach yn cael ei gynnig i'w weld yn Atodiad 5. Mae hyn yn cael ei grynhoi isod:

	£'000
Gostyngiadau Arfaethedig yn y Gyllideb	5,105
Cyfyngu ar y cynnydd yng nghyllidebau dirprwyedig yr Ysgolion i 3.1%	1,539
Cyfanswm	6,644

Yn rhan o'r rhestr hon, cydnabyddir bod yna eitemau wedi'u cynnwys ar y rhestr a fyddai'n golygu gorfod gwneud penderfyniadau annymunol mewn amseroedd arferol, ond nid yw'r Cyngor yn gweithredu mewn amseroedd arferol ac mae'n wynebu penderfyniadau eithriadol o anodd. Bydd pob un o'r cynigion nad ydynt yn cael eu gwireddu yn cynyddu'r baich ar breswylwyr Ceredigion am y bydd yn arwain at gynnydd uwch yn Nhreth y Cyngor.

e) **Ffioedd a Chostau**

Mae effaith y newidiadau arfaethedig i'r Ffioedd a'r Costau a fyddai'n dod i rym ar 01/04/24 wedi'i chynnwys yn y ffigyrau arfaethedig ar gyfer gwneud gostyngiadau yn y Gyllideb.

Mae'r newidiadau arfaethedig i Ffioedd unigol, lle cânt eu pennu gan y Cyngor i'w gweld yn Atodiad 8 (bydd unrhyw ffioedd a osodir gan sefydliadau eraill yn cael eu diweddarau pan fyddant yn ein hysbysu o'r newidiadau). Ar ôl i'r Pwyllgorau Craffu perthnasol graffu ar y cynigion hyn, bydd y Cabinet yn gwneud penderfyniad terfynol ar lefelau unigol Ffioedd a Chostau ar 20/02/24.

Disgwylir i'r gwasanaethau ddilyn yr egwyddorion a amlinellir ym Mholisi Rheoli Incwm ac Adennill Costau Gwasanaethau'r Cyngor, sy'n cynnwys anelu at adennill costau llawn lle bynnag y bo modd. Gellir dod o hyd i'r Ffioedd a'r Costau presennol hefyd ar wefan y Cyngor drwy fynd at:

[Ffioedd a Chostau 2023-2024 - Cyngor Sir Ceredigion](#)

[Fees and Charges 2023-2024 - Ceredigion County Council](#)

Er bod chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn gostwng (3.9% oedd y ffigwr ym mis Tachwedd), mae lefel y chwyddiant lleol y mae'r Cyngor yn ei brofi yn dal i fod yn sylweddol uwch na hyn e.e. Dyfarniadau Cyflog (gan gynnwys y diffyg yn sgil Dyfarniad Cyflog 23/24). Felly bydd hyd yn oed cynnydd sylfaenol o ran chwyddiant yn dal i fod yn sylweddol uwch na'r lefelau CPI diweddaraf.

Y prif feysydd sy'n newid, ar wahân i'r rheiny sy'n gysylltiedig â chynnydd sy'n ymwneud â chwyddiant yw:

- Harbyrau – parhau i symud tuag at adennill costau'n llawn.
- Codi tâl am barcio – cynnydd dros dro o 10% yn yr hyn a godir am barcio (yn amodol ar dalgrynnu) cyn cyflwyno strwythur ffioedd newydd cyn gynted ag y bo modd, ynghyd â chynigion i godi tâl ar y Promenâd. Cynigir ailgyflwyno codi tâl am barcio ym meysydd parcio Llandysul a Thregaron.
- Amgueddfa Ceredigion – cyflwyno ffioedd mynediad i oedolion. Bydd hyn yn cynnwys yr opsiwn i dalu pob tro y bydd rhywun yn mynd i'r Amgueddfa neu opsiwn i dalu am aelodaeth flynyddol.
- Gwasanaeth Llesiant – rhai ffioedd newydd
- Cyfleusterau Cyhoeddus – cynyddu'r ffioedd, adennill mwy o gostau
- Llogi cyfleusterau – mae nifer o ffioedd a chostau wedi'u dileu am fod adeiladau'r Cyngor yn cael eu defnyddio fwyfwy gan sefydliadau allanol a hynny'n barhaol.
- Mae trafodaethau yn parhau ynghylch y ffioedd a godir am gartrefi gofal y Cyngor a'r rheiny a delir i gartrefi gofal y Sector Preifat. Bydd y mater hwn yn destun adroddiad ar wahân.

Os oes yna gynigion ynghylch gwneud gostyngiadau i'r gyllideb yn effeithio ar wasanaethau penodol, nid yw'r Ffioedd a'r Costau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau hynny i'w gweld yn Atodiad 8. Os na fydd y cynnig dan sylw i wneud gostyngiadau yn y gyllideb yn mynd rhagddo, bydd angen i'r Cabinet ystyried y Ffioedd a'r Costau sy'n gysylltiedig â'r meysydd hynny cyn 01/04/24.

f) Premiymau Treth y Cyngor

Ar 14/12/23, ystyriodd yr Aelodau lefel Premiymau Treth y Cyngor ar gyfer Eiddo Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi o 01/04/24 ymlaen a phenderfynwyd y dylai'r Premiwm presennol o 25% gynyddu.

O ganlyniad i'r penderfyniad mae sylfaen treth y Cyngor ar gyfer 24/25 wedi cynyddu. Cadarnhaodd yr adroddiad i'r Cabinet ar 21/12/23, fod yna gynnydd o 3.05% yn amcangyfrif Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer 24/25 (cynnydd o 1,000.52 o ran Band D). Yn seiliedig ar elfen Band D y Cyngor ar lefel bresennol 2023/24, mae hyn yn cyfateb i tua £1.555m heb unrhyw gynnydd yn Nhreth y Cyngor. Mae hyn i bob pwrpas yn ymwneud ag amcangyfrif darbodus o'r budd ariannol tebygol o'r cynnydd ym Mhremiymau Treth y Cyngor ac mae'n ychwanegol at y lefel gyfredol o 25% y mae swm pellach o £615k wedi'i gyllidebu ar ei chyfer ar hyn o bryd.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch Premiymau Treth y Cyngor yn nodi y gall Awdurdod Lleol gadw unrhyw arian ychwanegol a gynhrychir gan Breimiymau Treth y Cyngor. Mae hefyd yn nodi y gall Awdurdodau ddefnyddio'r refeniw ychwanegol at unrhyw ddiben, er eu bod yn cael eu hannog i'w ddefnyddio i helpu i ddiwallu anghenion tai lleol yn unol â'r bwriadau polisi ar gyfer y premiymau.

Ar hyn o bryd, mae 25% o'r Premiymau Treth y Cyngor presennol o Eiddo Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi wedi'i glustnodi fel ymrwymiad i ddiwallu anghenion tai lleol. Mae gan y gronfa Tai Cymunedol newydd falans o £1.8m ar 31/03/23 a bydd hyn yn cynyddu ymhellach erbyn 31/03/24.

O ystyried yr her gyllidebol anferthol sy'n wynebu'r Cyngor, mae'r Cabinet yn ymwybodol o'r angen i sicrhau cydbwysedd rhwng yr awydd posibl i glustnodi holl breimiymau Treth y Cyngor yn llwyr a'r angen i ystyried sefyllfa'r Gyllideb yn ehangach. Er enghraifft, byddai £1.555m yn medru lleihau lefel Treth y Cyngor Band D tua 3.5%.

Mae'r Cabinet felly am weld y Cynllun Tai Cymunedol yn parhau i weithredu hyd yn oed os yw'r cyllid cychwynnol yn cael ei ddefnyddio ond mae o'r farn nad oes unrhyw fudd pe byddai gormod o arian ar gael ar unrhyw adeg benodol. Felly, ar ôl trafod hyn yn ofalus, mae'r Cabinet yn cynnig:

- Parhau i neilltuo 25% o arian premiymau Treth y Cyngor o 01/04/24, ond na ddylai cyfanswm y cyllid sy'n cael ei ddal fynd y tu hwnt i £2.0m. Byddai hyn yn dal i ganiatáu i arian gael ei ddefnyddio ac i arian gael ei ychwanegu gan ddefnyddio 25% o arian premiymau Treth y Cyngor. Byddai unrhyw gyllid ychwanegol y tu hwnt i'r £2.0m mewn unrhyw flwyddyn benodol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gyllideb gyffredinol.
- Byddai'r 75% arall o arian premiymau Treth y Cyngor o 01/04/24 yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gyllideb gyffredinol er mwyn lleihau baich Treth y Cyngor ar drigolion Ceredigion tua 3.5%.

g) Ystyriaethau o ran Cynyddu Treth y Cyngor

Gellir crynhoi'r sefyllfa sy'n deillio o baragraffau a) i f) uchod fel a ganlyn:

	£'000
Cyfanswm y Pwysau o ran Costau	18,103
Tynnu i ffwrdd y cynnydd yn y Cyllid o ran Cyllid Allanol Cyfun (AEF) Llywodraeth Cymru	-3,522
Diffyg Cychwynnol yn y Gyllideb	14,581
<u>Tynnu i ffwrdd y gostyngiadau a gynigir yn y Gyllideb</u>	
Gostyngiadau arfaethedig yn y Gyllideb	-5,105
Cyfyngu'r cynnydd yng nghyllidebau dirprwyedig yr Ysgolion i 3.1%	-1,539
Y defnydd a wneir o arian ychwanegol Premiymau Treth y Cyngor	-1,555
Diffyg cyn yr ystyriaethau am Dreth y Cyngor	6,382
Budd ariannol o gynnydd o 5% wedi'i fodelu o ran Treth y Cyngor	-2,298
Diffyg yn y Gyllideb sy'n parhau'n weddill	4,084

Byddai'r cydbwysedd rhwng y cyllid a rannwyd rhwng Llywodraeth Cymru a threthdalwyr Ceredigion yn 68% o'i gymharu â 32%, sy'n llawer yn is na'r rhaniad o 80%:20% a welwyd dros ddegawd yn ôl.

Mae costau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a'r Premiymau Treth y Cyngor yn ffactorau ansefydlog sy'n newid yn unol â gwahanol lefelau o ran y cynnydd yn Nhreth y Cyngor. Yn fras mae pob newid o 1% yn Nhreth y Cyngor bellach yn cyfateb i fudd net o tua £450k ac yn ychwanegu cost fisol o £1.29 i lefel Treth y Cyngor Band D.

Y Dreth Gyngor Band D a osodwyd ar gyfer elfen Ceredigion o'r dreth Gyngor yn 23/24 oedd £1,553.60, gan godi i £1,908.23 ar ôl cynnwys elfennau praesept y Cynghorau Tref a Chymuned ar gyfartaledd a'r Heddlu. Y Bil Treth Gyngor Band D cyfartalog yng Nghymru ar gyfer 23/24 oedd £1,879 a'r lefel Treth Gyngor Band D gyfartalog ar gyfer Awdurdod Unedol yn Lloegr oedd £2,139 ar gyfer 23/24.

Ar ôl ystyried £8.2m o ostyngiadau arfaethedig (gan gynnwys y £1.6m o ran Premiymau Treth y Cyngor) yn y Gyllideb ddrafft, mae diffyg o £4.1m yn dal i fodoli, hyd yn oed ar ôl cynnydd o 5% yn Nhreth y Cyngor (£2.3m). Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo, ond bydd angen ariannu'r bwch terfynol drwy Dreth y Cyngor.

Mae mwyafrif o anheddau Ceredigion ym Mand E (25%), gyda dros 85% o holl anheddau Ceredigion ym Mand A i E. Mae tua 5,300 o aelwydydd yng Ngheredigion hefyd sy'n rhan o Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar hyn o bryd, sy'n darparu amddiffyniad i'r rhai ar incwm isel iawn a/neu'r rheiny sy'n hawlio Budd-daliadau.

Pe byddai'r diffyg presennol o £4.1m sy'n weddill yn y Gyllideb yn cael ei ariannu'n gyfan gwbl drwy Dreth y Cyngor ar ben y cynnydd o 5% sydd wedi'i fodelu, byddai'n gynnydd sy'n llawer mwy nag y byddai unrhyw Aelod yn dymuno ei godi drwy Dreth y Cyngor. Ar hyn o bryd mae'r ffigurau'n nodi cynnydd posibl o 13.9% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 24/25 sydd ychydig yn fwy na £4 yr wythnos (neu £18 y mis) ar gyfer eiddo Band D. Mae'r sefyllfa o ran Bandiau A i E i'w gweld isod:

Band Treth y Cyngor	Nifer yr anheddau trethadwy	Cyfran o gyfanswm yr anheddau trethadwy	Cynnydd posibl yn Nhreth y Cyngor (Blwyddyn lawn)	Cynnydd posibl yn Nhreth y Cyngor (Misol)	Cynnydd posibl yn Nhreth y Cyngor (Wythnosol)
A	1,665	5%	£144	£12	£2.77
B	4,639	14%	£168	£14	£3.23
C	7,276	21%	£192	£16	£3.69
D	7,247	21%	£216	£18	£4.15
E	8,489	25%	£264	£22	£5.07

5. Y gofyniad o ran y gyllideb

Yn sgil yr ystyriaethau diweddaraf o ran y gyllideb ddrafft, ar hyn o bryd gofyniad y gyllideb ar gyfer 24/25 yw £192.470m, sy'n gynydd o 6.9% ers 23/24. Mae'r cynnydd hwn yn is na'r flwyddyn flaenorol (8.6%).

Mae cyfrifiad manwl o'r gofyniad o ran y gyllideb i'w weld yn Atodiad 6. Gan fod hyn yn seiliedig ar setliad dros dro 24/25, mae'n destun unrhyw addasiadau y mae'n bosibl y bydd angen eu gwneud ar ôl i setliad terfynol Llywodraeth Cymru gael ei gyhoeddi ar 27/02/24. Felly, byddai angen gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol yn unol â'r canlynol:

- bydd gwerth unrhyw grantiau penodol a drosglwyddir i'r Grant Cynnal Refeniw yn cael ei drosglwyddo i gyllideb y gwasanaeth perthnasol, lle ystyrir bod hynny'n briodol.
- bydd unrhyw newidiadau penodol eraill yn cael eu targedu'n uniongyrchol at y gwasanaeth / gwasanaethau a effeithir, lle bynnag y bo hynny'n briodol.
- ymdrinnir ag unrhyw newidiadau eraill i'r Cyllid Allanol Cyfun (AEF) drwy addasu cyllideb refeniw gorfforaethol y Grŵp Arweiniol.

Byddai'r ystyriaethau am y Gyllideb gyffredinol yn cael eu trosi'n ddyraniadau drafft i'r gwasanaethau, fel y nodir yn y crynodeb isod. Mae dadansoddiad pellach o'r newidiadau rhwng cyfansymiau Cyllideb Rheoladwy 23/24 a chyfansymiau Cyllideb Reoladwy Ddrafft 24/25 i'w gweld yn Atodiad 7.

Cyfansymiau yn y Gyllideb Ddrafft fesul Gwasanaethau

	Cyfansymiau Cyllideb Reoladwy Ddiweddaraf 23/24 £'000	Cyfansymiau Cyllideb Reoladwy Ddrafft 24/25 £'000	<i>Newid o'i gymharu â Chyllideb Ddiweddaraf 23/24 %</i>
Cyswllt Cwsmeriaid, TGCh a Digidol	6,490	6,673	2.8%
Gwasanaethau Democrataidd	5,023	5,187	3.3%
Yr Economi ac Adfywio	3,966	3,743	-5.6%
Cyllid a Chaffael	18,982	19,639	3.5%
Prifffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	19,414	20,075	3.4%
Cyfreithiol a Llywodraethu	1,659	1,691	1.9%
Pobl a Threfniadaeth	2,341	2,413	3.1%
Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	2,495	2,518	0.9%
Porth Cymorth Cynnar	4,111	4,066	-1.1%
Porth Cynnal	33,731	38,933	15.4%
Porth Gofal	15,501	17,537	13.1%
Ysgol a Diwylliant	56,788	58,068	2.3%
Grŵp Arweiniol*	4,652	5,848	25.7%
Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a Chronfeydd Wrth Gefn	4,948	6,079	22.9%
CYFANSWM	180,101	192,470	6.9%

*Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys lleoliadau plant y tu allan i'r sir.

6. Risgiau i'r Gyllideb

Mae papur ynglŷn â'r risgiau i'r gyllideb (sydd wedi'i ddiweddarau i gynnwys y newidiadau perthnasol) i'w weld yn Atodiad 9. Mae'n nodi'r prif risgiau i'r gyllideb ynghyd â sylwadau priodol a'r trefniadau rheoli sydd ar waith i leihau pob risg.

Dyma'r prif newidiadau ers y llynedd:

- Newidiadau i lefel Cyllid Allanol Cyfunol Llywodraeth Cymru – mae'r rhagolygon economaidd llwm yn golygu bod angen ailwerthusiad sylfaenol o ddiben sylfaenol y Cyngor a'i berthynas â thrigolion y sir os yw'r Cyngor am barhau'n gynaliadwy yn y tymor canolig. Mae'r risg hon yn un sylfaenol a sylweddol.
- Newidiadau o ran incwm grant penodol – cydnabyddir bod y risg hon yn bodoli ac yn y pen draw, bydd toriadau mewn cyllid grant yn golygu y bydd angen i'r Gwasanaethau dorri'r got yn ôl y brethyn bron ar bob achlysur. Dim ond fel eithriad y byddai hyn yn cael ei drin fel mater corfforaethol.
- Cyfraddau Llog – cydnabyddir bod y cyfraddau llog bron yn bendant wedi cyrraedd eu penllanw ac felly ochr yn ochr â gostyngiad yn y cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi, bydd y gallu i sicrhau'r lefel bresennol o incwm buddsoddi yn lleihau.
- Effeithiau ar ôl Covid – nid yw maint a chymhlethdod yr achosion y mae'r Gwasanaethau Addysg a Gofal Cymdeithasol yn eu gweld yn lleihau.
- Chwyddiant o ran cyflogau a chwyddiant nad yw'n ymwneud â chyflogau – cydnabyddir bod y risg hon yn parhau'n un real a sylweddol.
- Defnyddio staff asiantaeth – mae hon yn risg newydd sydd wedi'i chynnwys am fod lefel uchel o staff asiantaeth yn parhau i gael eu defnyddio, yn benodol o fewn gofal cymdeithasol yn achos swyddi statudol Gweithwyr Cymdeithasol ac o fewn Cartrefi Gofal yr Awdurdod Lleol.
- Premiymau Treth y Cyngor – mae hon yn risg newydd sy'n ymwneud ag effaith y newid posibl yn ymddygiad perchnogion eiddo sydd bellach yn wynebu talu lefelau uwch o breimiymau Treth y Cyngor.
- Cronfeydd pensiwn – cydnabyddir bod yna gynnydd mawr bellach yng nghyfraddau Cyfraniadau'r Cyflogwr ar gyfer Cynllun Pensiynau'r Athrawon a Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Er bod Llywodraeth Cymru wedi nodi bod disgwyl i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ddarparu cyllid (ond nid tan 24/25) ar gyfer cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer y ddau gynllun, nid oes sicrwydd pendant o hyn. Mae risg i'r gyllideb felly o ran y Gyllideb a Ddirprwyir i'r Ysgolion ac Ardoll Dân Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

7. Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn

Mae'r rhaglen gyfalaf aml-flwyddyn sydd wedi'i diweddarau i'w gweld yn Atodiad 10 ac mae'r Strategaeth Gyfalaf i'w gweld yn Atodiad 11. Y Rhaglen Gyfalaf wedi'i diweddarau a gynigir ar gyfer 23/24 yw £50.4m a £59.1m ar gyfer 24/25. Cyfanswm y rhaglen gyfalaf arfaethedig ar gyfer y cyfnod rhwng 23/24 a 26/27 yw £138m a chyflwynwyd y rhaglen gerbron Grŵp Datblygu'r Cyngor ar 18/12/23. Ceir rhaglen waith barhaus i sicrhau bod gwaith cynllunio'r gwasanaethau unigol o ran cyfalaf yn parhau i wella a'i fod yn canolbwyntio mwy ar y tymor canolig a'r hirdymor.

Ar yr adeg hon, cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd, mae manylion nifer o grantiau penodol heb gael eu cyhoeddi eto. Caiff y rhain felly eu hychwanegu at y Rhaglen Gyfalaf pan fydd y llythyron sy'n cynnig y grantiau yn dod i law ac yn cael eu derbyn. Mewn rhai achosion, mae'n bosib y bydd hefyd angen elfen o arian cyfatebol, ac mae rhywfaint o ddarpariaeth eisoes yn y rhaglen ar gyfer hyn.

Yn yr un modd ag y mae Cyllideb Refeniw 24/25 yn hynod heriol, mae'r Rhaglen Gyfalaf hefyd yn anodd i'w rheoli. Mae hyn oherwydd na chafwyd dim cynnydd yn y cyllid craidd oddi wrth Lywodraeth Cymru (nid yw'r cyllid erioed wedi dychwelyd i lefelau 2008/09), diffyg cyllid allanol, cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd sy'n lleihau, pwysau o ran chwyddiant a'r angen i flaenoriaethu cynlluniau buddsoddi arbed i helpu i leihau'r pwysau ar y gyllideb refeniw. Felly, cynigir rhoi blaenoriaeth i'r canlynol yn y Rhaglen Gyfalaf ddiweddaraf:

- £1.1m ar gyfer to newydd i Amgueddfa Ceredigion yn 24/25
- £1.5m yn 25/26 ac yn 26/27 ar gyfer fflyd newydd, yn bennaf y cerbydau craidd ar gyfer casglu sbwriel wrth iddynt gyrraedd y pwynt lle bo angen eu hadnewyddu.
- £0.25m ar gyfer to newydd yn Ysgol Llwyn yr Eos yn 24/25 o ganlyniad i weithgarwch troseddol.
- £1.5m ar gyfer buddsoddiadau o ran y Cynllun Ynni yn 24/25 (£1.25m) a 25/26 (£250k). Gan ddefnyddio rhaglen Re:fit Llywodraeth Cymru ynghyd â'r cynlluniau llai o faint, dylai fod modd creu arbedion i gynorthwyo'r Gyllideb Refeniw.
- £0.36m ar gyfer Goleuadau Stryd (buddsoddi i arbed) a'r Seilwaith Parcio i gynorthwyo â sicrhau arbedion refeniw / incwm ychwanegol
- Rhaglen uwchraddio barhaus o ran Cartrefi Preswyl y Cyngor (£1.3m dros 3 blynedd).
- Bydd yr ymrwymadau blaenorol a gymeradwywyd ar gyfer arian cyfatebol i Ysgol Dyffryn Aeron a Chynllun Diogelu'r Arfordir Aberaeron yn parhau.

Mae'n gwbl amlwg bod blwch sylweddol rhwng dyheadau'r Cyngor a'i allu i ariannu'r dyheadau hynny. Er enghraifft, ymhlith yr agweddau nad ydynt wedi'u cyfrifo'n llawn yn y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig y mae'r pwysau o ran Cynlluniau Rheoli Asedau'r Priffyrdd, yr Arolygon Cyflwr Adeiladau, y gofynion o ran cerbydau newydd i'r fflyd (gan gynnwys buddsoddiadau yng nghyswllt Sero Net), buddsoddi yn Ffermydd y Sir a gosod cyfarpar TGCh newydd yn yr ysgolion yn y dyfodol.

Bydd y gallu i ddarparu arian cyfatebol ar gyfer cynlluniau mawr yn y dyfodol hefyd yn hynod o heriol. Yn y bôn, mae hyn yn golygu na fydd modd cynnal y lefel bresennol o asedau y mae'r Cyngor yn berchen arnynt (boed hynny'n adeiladau, yn seilwaith neu'n fflyd cerbydau).

8. Cydnerthedd Ariannol (gan gynnwys Cronfeydd wrth gefn a Balansau Cyffredinol)

Mae cynaliadwyedd a chydnerthedd ariannol y Cyngor yn gadarn iawn hyd yn hyn, ac yn cael ei gynorthwyo gan fantolen gref. Mae dull gweithredu a hanes y Cyngor yn seiliedig ar ddull gweithredu sydd wedi bod yn gadarn yn gyson o ran rheolaeth ariannol, ac mae'n cael ei gynorthwyo gan dîm Cyllid proffesiynol, profiadol, a Grŵp Arweiniol - a arweinir gan Brif Weithredwr - sy'n gweithredu mewn dull strategol, corfforaethol.

Fodd bynnag, mae gwytnwch ariannol y Cyngor yn cael ei brofi gan sefyllfa ariannol heriol o fewn y flwyddyn, a'r setliad ariannol gwaeth na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru, ar ben toriadau cyllidebol eraill, cudd / pwysau ychwanegol o ran costau sy'n parhau i godi bron yn ddyddiol. O ganlyniad, bu i'r Grŵp Arweiniol ystyried y gofrestr Risg Corfforaethol ar 03/01/24 a chytuno i gynyddu sgôr y Risg Ariannol o 20 i 25, sef y sgôr risg uchaf posib.

Mae'r Gyllideb bob amser wedi'i gosod fel na fydd galw ar y gyllideb sylfaenol o'r Balansau Cyffredinol, ar wahân i ariannu eitemau un-tro eithriadol iawn, os bydd angen. Targed y Cyngor, a gymeradwywyd, yw cynnal y Balansau Cyffredinol ar rhwng 3% a 5% o'r gwariant net. Mae'r tabl canlynol yn dangos y sefyllfa bresennol a'r sefyllfa a ragwelir:

	31/03/23 Gwirioneddol	31/03/24 Arfaethedig	31/03/25 Arfaethedig
Balansau Cyffredinol - Swm	£6.7m	£6.7m	£6.7m
Balansau Cyffredinol - Canran	4.0%	3.7%	3.5%

Gyda chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, cydnabuwyd bod eu lefelau wedi cyrraedd eu hanterth ac y byddent yn lleihau wrth ddefnyddio rhai cronfeydd wrth gefn, fel y cynlluniwyd. Mae Atodiad 12 yn dangos datganiad dros dro ar gyfer Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, y gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

	31/03/23 Gwirioneddol £m	31/03/24 Amcangyfrif £m	31/03/25 Amcangyfrif £m
Cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi			
Balansau Dirprwyedig Ysgolion	5.1	2.5	2.5 (i'w gadarnhau)
Cronfa gyfalaf wrth gefn Gorfforaethol	6.2	5.6	2.5
PFI Penweddig	1.6	1.3	1.0
Rheolaeth Gyllidebol a Digwyddiadol	4.1	2.1	2.1
Pwysau Costau a Chwyddiant	1.3	-	-
Cronfeydd Yswiriant / Dileu Swyddi	2.3	2.2	1.3
Cynllun Tai Cymunedol	1.8	2.0	2.0
4 Cronfa Blaenoriaeth Gorfforaethol wrth gefn	19.8	11.4	5.0
Cronfeydd Wrth Gefn Eraill	6.6	5.9	4.1
CYFANSWM	48.8	33.0	20.5

I grynhoi, rhagwelir y bydd y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn disgyn yn ôl i'r lefelau cyn COVID erbyn mis Mawrth 2025, a byddant yn llai gwydn a hyblyg yn y dyfodol, yn enwedig gan fod disgwyl i'r cronfeydd wrth gefn ddarparu ar gyfer rhagor o ymrwymadau yn 25/26 a thu hwnt.

Mewn egwyddor, gellid defnyddio cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi fel strategaeth i helpu i gydbwyso'r gyllideb, fodd bynnag, ni fyddai hyn yn gynaliadwy nac yn ddoeth a byddai'n mynd yn groes i safbwyntiau blaenorol Archwilio Cymru. Bydd ymrwymadau hefyd yn dod allan o gronfeydd wrth gefn sy'n ymwneud â rheoli sefyllfa 23/24 o fewn y flwyddyn, i gyfrannu at brosiectau cyfalaf mawr (Amddiffyn Arfordir Aberaeron, Ysgol Dyffryn Aeron), i falansau Ysgolion Dirprwyedig ac ymrwymadau amrywiol sy'n gysylltiedig â Gofal Cymdeithasol. Golyga hyn nad yw'r hyblygrwydd a fu dros y blynyddoedd diwethaf yno mwyach ac felly rhagwelir gostyngiad yn lefelau'r cronfeydd wrth gefn yn ôl i'r hyn oeddent cyn COVID.

Hefyd, byddai'n groes i gyngor y swyddog Adran 151 i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi i gydbwyso'r gyllideb gyffredinol oni bai bod achos busnes / strategaeth glir i adfer y cronfeydd wrth gefn hyn cyn dechrau'r broses o osod y gyllideb nesaf.

9. Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

Fel y nodwyd ynghynt yn rhan ragarweiniol yr adroddiad, cafodd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ei diweddarau ym mis Mehefin 2023. Gyda chwyddiant yn dal yn sylweddol uwch na'r CPI, mae proffwydo'r rhagolygon ariannol yn parhau i fod yn heriol iawn ac mae'r sefyllfa ariannol wedi gwaethygu ymhellach ers dechrau'r flwyddyn ariannol hon.

Nid oedd y Setliad dros dro ar gyfer Cyllid Llywodraeth Leol yn cynnwys arwyddion o gwbl am y lefelau ariannu a ddaw yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, lluniodd tîm Dadansoddi Cyllid Cymru (cangen ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd) nodyn briffio ar y rhagolwg cyllidol tymor canolig ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru, a hynny ym mis Hydref 2023:

[The-medium-term-fiscal-outlook-for-local.pdf \(cardiff.ac.uk\)](https://www.cardiff.ac.uk/the-medium-term-fiscal-outlook-for-local)

O dan eu senario canolig nhw, disgwylir i gyllid Llywodraeth Leol ddisgyn ychydig yn nhermau arian parod, gan gyfartaledd o -0.2% y flwyddyn dros gyfnod 25/26 hyd 27/28. Dyma'r proffil dangosol isod:

Blwyddyn Ariannol	Senario Canolig	Senario Amgen
2025/26	-0.3%	+1.0%
2026/27	-0.5%	+0.7%
2027/28	+0.2%	+1.4%
<i>Cyfartaledd</i>	-0.2%	+1.0%

Ym mhob senario, mae toriad mewn termau real unwaith yr ystyrir chwyddiant. Mae'r adroddiad yn diweddu drwy ddweud y bydd cyllidebau Awdurdodau Lleol yn gwbl ddibynol ar godi Treth y Cyngor o 25/26 ymlaen, a bod cyllid Awdurdodau Lleol yn ôl pob tebyg ar lwybr anghynaliadwy lle nad yw'n bosib mwyach cyflawni rhagor o doriadau.

Wrth gwrs, mae'r mater bach o Etholiad Cyffredinol y DU sy'n debygol o ddigwydd rhwng Mai a Hydref 2024, a heb fod yn hwyrach na mis Ionawr 2025. Hefyd mae'r Canghellor wedi cadarnhau y bydd Cyllideb y Gwanwyn yn digwydd ar 06/03/24. Ar hyn o bryd nid yw trywydd y Cyflog Byw Cenedlaethol (y tu hwnt i'r lefel a gadarnhawyd, sef £11.44 ar gyfer Ebrill 2024) yn eglur ac nid yw'n sicr ychwaith a fydd ffrwyno ar ddyfarniadau cyflog y dyfodol, er bod angen gwneud hynny, yn amlwg.

Roedd diweddariad Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2023 wedi rhagweld bwlch cyllidebu o £15.9m dros dair blynedd. Gan ddefnyddio'r un proffil o bwysau costau a gan dybio mai cyllid fflat a ddaw oddi wrth Lywodraeth Cymru (h.y. dim cynnydd na lleihad) a gan fodelu Treth y Cyngor ar 5%, byddai hyn yn awgrymu bwlch cyllidebu o tua £22.3m dros y tair blynedd nesaf:

	2025/26 Dangosol £m	2026/27 Dangosol £m	2027/28 Dangosol £m
Pwysau dangosol ar y Gyllideb	11.1	10.2	10.0
Incwm Tybiedig Treth y Cyngor	-3.0	-3.0	-3.0
Setliad Cyllido Tybiedig AEF Llyw.C	Dim	Dim	Dim
Isafswm y Bwlch Cyllidebu	8.1	7.2	7.0

Mae gan y senario yma risg tuag i fyny oherwydd nid yw'r pwysau costau yn cilio ar yr un cyflymder ag y mae chwyddiant cyffredinol y CPI yn cilio. Byddai diffygion cyllidebol o £7m i £8m y flwyddyn yn cyfateb i gynnydd cyson yn Nhreth y Cyngor o ryw 22% y flwyddyn, gan dybio bod pwysau costau yn gostwng i £10m neu £11m y flwyddyn. Byddai cynnydd o 1% yn Setliad AEF Llywodraeth Cymru ond yn cynhyrchu £1.3m y flwyddyn yn ychwanegol, a byddai ond yn lleihau unrhyw gynnydd yn Nhreth y Cyngor gan oddeutu 3%.

Y bwriad yw diweddarau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn fanylach ar ôl Datganiad y Canghellor yn y Gwanwyn. Bydd hyn yn hwyluso dull mwy manwl, ystyriol a phenodol.

Fodd bynnag, ni ddylai'r Cyngor dwyllo'i hun – mae'r rhagolygon ariannol tymor canolig yn llwm tu hwnt. Mae cydbwysu cyllideb refeniw 24/25 gyda chynnydd cyllido o +2.6% gan Lywodraeth Cymru yn hynod heriol ac mae hynny ond yn bosib gyda chynnydd sylweddol iawn yn Nhreth y Cyngor. Felly byddai rhychwant o -0.3% o ostyngiad i +1.0% o gynnydd ar gyfer 25/26 yn amhosib i'w gyflawni heb ailwerthuso pwrpas sylfaenol y Cyngor a'i berthynas gyda'i drigolion.

Ar ei ben ei hun, ni fyddai Strategaeth Ariannol Tymor Canolig diwedaredig yn cynnig ateb i'r cymhlethdod yma a heb yr ailwerthuso sylfaenol yma, mae Cyngor Sir Ceredigion yn debygol iawn o fod yn anghynaliadwy yn ariannol yn y tymor canolig.

10. Casgliadau a Barn y Swyddog Adran 151

Disgwylir i setliad terfynol Llywodraeth Cymru i Lywodraeth Leol gael ei gyhoeddi ar 27/02/24, yr un diwrnod â Chyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru. Nid yw hyn yn caniatáu bron dim amser cyn cyfarfod y Cyngor Llawn ar 29/02/24 lle bydd yr holl Aelodau yn cyfarfod i ystyried a gwneud penderfyniadau terfynol am y Gyllideb Net a lefel Treth y Cyngor. Mae dyletswydd gyfreithiol ar Aelodau i osod Cyllideb y Cyngor a Threth y Cyngor erbyn 11 Mawrth bob blwyddyn. O ystyried cymhlethdod a difrifoldeb y sefyllfa gyllidebol, mae peryg y bydd angen cyfarfod ychwanegol o'r Cyngor rhwng 29/02/24 a 10/03/24.

Ar ôl ystyried pob agwedd, gellir cyflawni cyllideb gytbwys, gan ystyried cyfanswm y cyllid sydd ar gael oddi wrth Lywodraeth Cymru, y cwtogi cyllidebol a gynigir, a'r defnydd a wneir o arian ychwanegol premiymau Treth y Cyngor. Fodd bynnag, mae hyn ond yn bosib drwy ateb y diffyg ariannol sy'n weddill drwy godi Treth y Cyngor yn sylweddol.

Dyma Gyllideb ofnadwy o anodd i'w pharatoi a byddai llawer o'r cynigion a geir ynddi, ar adeg arferol, yn gwbl annerbyniol i Aelodau, Swyddogion a thrigolion Ceredigion. Fodd bynnag, nid adeg arferol mohoni. Mewn cyfnod o dwf economaidd gyda digonedd o gyllid, mae penderfyniadau cyllidebol yn hawdd, ond ar adegau o chwyddiant uchel, dyfarniadau cyflog uchel, pwysau cost sylweddol a lleihad yn y cyllid craidd oddi wrth Lywodraeth Cymru, mae gofyn gwneud penderfyniadau anodd, annymunol, a hynny i sicrhau hyfywedd a chynaliadwyedd parhaus Cyngor Sir Ceredigion.

Bu llawer o ymgysylltu â'r holl Aelodau drwy gyfres o Weithdai Cyllidebol ac mae eu cyfraniadau a'u herio yn parhau i fod yn adeiladol ac i'w groesawu.

Gan ystyried yr holl faterion yn yr adroddiad hwn, fel swyddog Adran 151, gallaf gadarnhau felly fod y gyllideb arfaethedig hyd yma wedi cael ei pharatoi mewn ffordd gadarn. Nid yw'r Gyllideb yn ddi-risg a byddai'n dibynnu ar wneud llawer o Arbedion Cyllidebol. Bydd effaith hefyd ar drigolion Ceredigion yn sgil cynnydd llawer yn uwch na'r arfer yn Nhreth y Cyngor. Gallaf gadarnhau hefyd fod y cynlluniau Cyfalaf presennol a'r Strategaeth Gyfalaf yn ddarvoudus ac yn fforddiadwy.

Bydd angen i'r gwaith o gyflawni Arbedion Cyllidebol gael ei fonitro'n ddiwyd yn ystod y flwyddyn a hynny drwy'r trefniadau rheoli ariannol arferol. Mae hyn yn cynnwys bod y cyllidebau diweddaraf yn ystod y flwyddyn yn cael eu diweddarau'n rheolaidd, cyflwyno adroddiadau Monitro Ariannol rheolaidd i'r Cabinet, adrodd ar eithriadau yn ôl yr angen a bod Deiliaid y Gyllideb yn cymryd camau cywiro yn ddigon cynnar yn y flwyddyn os bydd materion annisgwyl yn codi.

Heb sôn am lunio cyllideb gytbwys, mae'r rhagolygon tymor canolig yn llwm iawn ac mae'r cyllidebau refeniw a chyfalaf o dan bwysau sylweddol. Mae'r gofrestr Risg Gorfforaethol yn cydnabod hyn a bernir bod y Risg Ariannol bellach ar 25 – y sgôr uchaf bosib.

Fel yr amlygwyd sawl gwaith yn yr adroddiad hwn, mae angen ailwerthuso pwrpas sylfaenol y Cyngor a'i berthynas gyda'i drigolion os yw Cyngor Sir Ceredigion am barhau'n gynaliadwy yn ariannol dros y tymor canolig.

Gyda Chyllideb 24/25 mor heriol, mae rhagor o waith yn mynd rhagddo. Mae'r Cabinet a'r Grŵp Arweiniol wedi ymrwymo i sicrhau bod baich Treth y Cyngor ar drigolion Ceredigion mor isel ag y gall fod o fewn y cyfyngiadau y mae'r Cyngor yn gweithio oddi fewn iddynt. Bydd argymhelliad terfynol ynghylch Gofyniad y Gyllideb a Threth y Cyngor yn cael ei wneud i'r Cyngor Llawn yng nghyfarfod y Cabinet ar 20/02/24, yn dilyn y broses o Graffu ar y Gyllideb.

Argymhellion:

1. Nodi bod y codiad arfaethedig yn ardoll Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru yn debygol o olygu pwysau costau o £497k ar Gyllideb 24/25 y Cyngor (sy'n cyfateb i gynnydd o oddeutu 1.1% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer trigolion Ceredigion).
2. Cynnig y Cabinet parthed Premiymau Treth y Cyngor yw:
 - a) O 01/04/24 ymlaen, y bydd 25% o'r holl arian a godir o bremiymau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor (net ar ôl ad-daliadau/costau Treth y Cyngor) yn cael ei neilltuo a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol, ar yr amod na fydd lefel y cyllid sy'n cael ei ddal yn y Cynllun Tai Cymunedol yn mynd y tu hwnt i £2.0m, a bod unrhyw gyllid y tu hwnt i hyn mewn blwyddyn benodol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gyllideb gyffredinol.
 - b) O 01/04/24 ymlaen, y bydd 75% o'r holl arian a godir o bremiymau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor (net ar ôl ad-daliadau/costau Treth y Cyngor) yn cael ei gadw a'i ddefnyddio i gefnogi'r gyllideb gyffredinol, er mwyn lleihau baich Treth y Cyngor ar drigolion Ceredigion.
3. Nodi mai Gofyniad Cyllideb ddrafft 24/25 ar hyn o bryd yw £192.470m.
4. Nodi y byddai Gofyniad Cyllideb drafft 24/25 yn arwain at gynnydd yn Nhreth y Cyngor (o ran cyfran Cyngor Sir Ceredigion) o £4.15 yr wythnos (£17.99 y mis) ar gyfer eiddo Band D.
5. Pan gyhoeddir Setliad Terfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 24/25:
 - a) Bod gwerth unrhyw grantiau penodol pellach a drosglwyddir i'r Grant Cynnal Refeniw yn cael eu cyfeirio i gyllideb y Gwasanaeth perthnasol, lle bo hynny'n briodol.
 - b) Y dylai unrhyw newidiadau penodol eraill dargedu'r Gwasanaeth(au) sy'n cael eu heffeithio yn uniongyrchol, pan fo hynny'n briodol.
 - c) Y rhoddir sylw i unrhyw newid arall i'r AEF drwy wneud addasiad i gyllideb y Grŵp Arweiniol.
6. Nodi y byddai'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cael ei diweddarau ymhellach ar ôl Cyllideb y Canghellor yn y Gwanwyn, ar 06/03/24.
7. Nodi rhaglen arfaethedig y Ffioedd a Thaliadau drafft fel y nodir yn Atodiad 8, ystyrir y rhain yn ffurfiol gan y Cabinet ar 20/02/24.
8. Argymell bod y Rhaglen Gyfalaf Amlflwyddyn, fel y'i nodir yn Atodiad 10, yn cael ei chymeradwyo.
9. Argymell bod y Strategaeth Gyfalaf, fel y'i nodir yn Atodiad 11, yn cael ei chymeradwyo.
10. Nodi y dylid ystyried unrhyw opsiynau newydd neu amgen ar gyfer Cyllideb ddrafft 24/25 yn ystod y cyfarfodydd i Graffu ar y Gyllideb ac y byddai angen digon o amser ymlaen llaw ar y Swyddog Adran 151 i fodelu'n llawn unrhyw effeithiau posib ac i roi barn ar gadernid unrhyw gynnig.
11. Cyfeirio'r adroddiad Cabinet hwn at sylw'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu fel y gall y Cabinet ystyried eu hadborth ffurfiol nhw ar 20/02/24, fel y gall y

Cabinet wedyn gyflwyno'u hargymhellion terfynol nhw ar Ofyniad Cyllideb 24/25 a maint y cynnydd yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 24/25 i'r Cyngor Llawn ar 29/02/24.

Rheswm dros y penderfyniad:

Fel bod y gwaith o baratoi Cyllideb 2023/24 yn gallu mynd rhagddo.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Oes Aseiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam.

Bydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn ystyried y materion Hirdymor, Integreiddio, Cynnwys ac Atal sy'n codi o gynigion manwl y gyllideb.

Trosolwg a Craffu:

Ystyrir Cynigion y Gyllideb gan y Pwyllgor Cydlynw Trosolwg a Craffu ar 01/02/24 a gan y Pwyllgorau Trosolwg a Craffu unigol ar 08/02/24 a 09/02/24.

Fframwaith Polisi:

Mae'r Gyllideb yn cynorthwyo pob elfen o Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027.

Amcanion Llesiant Corfforaethol:

Mae'r Gyllideb yn cynorthwyo pob elfen o Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027.

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:

Wedi eu nodi yn yr adroddiad.

Goblygiadau cyfreithiol:

Mae hyn yn rhan o'r broses o osod cyllideb ac o rwymedigaeth gyfreithiol y Cyngor i osod cyllideb erbyn 11 Mawrth.

Goblygiadau Staffio:

Rhan o'r broses o osod y gyllideb.

Goblygiadau o ran eiddo / asedau:

Rhan o'r broses o osod y gyllideb.

Risg(iau):

Wedi eu nodi yn yr adroddiad.

Pwerau Statudol:

Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972.

Papurau Cefndirol:

Adroddiad i'r Cabinet ynghylch pennu sylfaen Treth y Cyngor – 21/12/23.

Atodiadau:

Atodiad 1 - Llythyr gan y Gweinidog am y Setliad Dros Dro

Atodiad 2 - Gwybodaeth am y Setliad i bob Cyngor

Atodiad 3 - Manylion ynghylch y Pwysau ar Gostau yn y Gyllideb

Atodiad 4 - Pwysau ar Gostau yn y Gyllideb fesul Swyddog Arweiniol Corfforaethol

Atodiad 5 - Cynigion i gwtogi ar y Gyllideb

- Atodiad 6 - Crynodeb o'r Gofyniad ar gyfer y Gyllideb
- Atodiad 7 - Symudiadau Cyllidebol 23/24 i 24/25
- Atodiad 8 - Cynigion o ran Ffioedd a Thaliadau unigol
- Atodiad 9 - Risgiau i'r Gyllideb
- Atodiad 10 - Rhaglen Gyfalaf Amlflwyddyn
- Atodiad 11 - Strategaeth Gyfalaf
- Atodiad 12 - Datganiad Dros Dro ar y Cronfeydd Wrth Gefn a'r Balansau Cyffredinol

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:

Duncan Hall - Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael

Swyddogion Adrodd:

Duncan Hall - Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael

Justin Davies - Rheolwr Corfforaethol: Cyllid Craidd

Kirsty Dawson - Rheolwr Corfforaethol: Cyfrifeg y Gwasanaeth

Dyddiad:

15/01/24

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/RE/3147/23

At:
Arweinwyr Cyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Copi at:
Prif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid, Cyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol
yng Nghymru
Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

20 Rhagfyr 2023

Annwyl Gydwethwyr,

Heddiw, mewn Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, rwy'n cyhoeddi manylion Setliad Refeniw a Chyfalaf Dros Dro Llywodraeth Leol ar gyfer 2024-25 (y Setliad) i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol (awdurdodau) yng Nghymru. Mae'r datganiad hwnnw ynghlwm er gwybodaeth ichi.

Fel y gwyddoch, yn dilyn cyhoeddi Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU, bydd setliad adnoddau Llywodraeth Cymru yn lleihau 0.1% yn 2024-25 mewn termau real. Fel yr wyf wedi'i nodi yng nghyllideb Cymru, nid yw ein setliad cyllido cyffredinol yn ddigonol i fodloni'r holl bwysau sydd arnom, a chaniatáu i ni wneud popeth yr ydym am ei wneud. Rydym wedi addasu'r dyraniadau gwariant dangosol yn ein cyllideb i ddarparu cyllid a diogelwch ychwanegol ar gyfer y gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl a chymunedau ledled Cymru. Rydym wedi gwneud hyn yn unol â'n blaenoriaethau o ran:

- Diogelu gwasanaethau cyhoeddus craidd, rheng flaen cyn belled ag y bo modd.
- Darparu'r budd mwyaf i aelwydydd sy'n cael eu taro galetaf.
- Blaenoriaethu swyddi, lle bynnag y bo modd.
- Gweithio mewn partneriaeth â chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus i wynebu'r storm ariannol hon gyda'n gilydd.
- Symud cyllid oddi wrth feysydd sydd heb eu datganoli, y dylai Llywodraeth y DU fod yn eu hariannu.

Rydym wedi defnyddio'r dull gweithredu hwn i sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio'r cyllid lle gall gael yr effeithiau cadarnhaol mwyaf o dan yr amgylchiadau, ac yn gweithredu i sicrhau ein bod yn lliniaru'r effeithiau uniongyrchol ar bobl a lleoedd, cyn belled ag y bo modd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn 2024-25, bydd awdurdodau lleol Cymru yn cael £5.7 biliwn drwy Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cymru ac Ardrethi Annomestig i'w wario ar ddarparu gwasanaethau allweddol. Golyga hyn y bydd y cyllid refeniw craidd ar gyfer llywodraeth leol yn 2024-25 yn cynyddu 3.1%, ar sail tebyg at ei debyg, o'i gymharu â'r flwyddyn gyfredol. Rwy'n darparu cyllid ychwanegol o £1.3 miliwn i sicrhau na fydd unrhyw awdurdod yn derbyn llai na chynnydd o 2%.

Rydym wedi gwneud amddiffyn y cynnydd dangosol o 3.1% yn y Setliad llywodraeth leol a gyhoeddwyd yn y Gyllideb ym mis Mawrth yn flaenoriaeth wrth bennu ein cyllideb ddrafft. Yn yr un modd â'n ffocws ar gefnogi aelwydydd, mae cynnal ein buddsoddiad yn eich gwasanaethau yn amddiffyn aelwydydd a'r gwasanaethau hanfodol rydych chi'n eu darparu i'ch cymunedau.

Yn ogystal â'r Setliad craidd, rwy'n cyhoeddi gwybodaeth ddangosol ar grantiau refeniw a chyfalaf penodol a gynlluniwyd ar gyfer 2024-25, sy'n cyfateb i dros 1.3 biliwn ar gyfer grantiau refeniw a thros £925 miliwn ar gyfer grantiau cyfalaf yn ystod y cyfnod dros dro hwn.

Fel yr ydym wedi'i drafod, rydym wedi ymrwymo, fel rhan o'n Rhaglen Lywodraethu, i sicrhau nad yw eich awdurdodau yn cael eu llesteirio gan fiwrocratiaeth ddiangen. Mae ein rhaglen waith i leihau nifer y grantiau unigol a delir i awdurdodau lleol o 2024-25 ac i symud grantiau i'r setliad wedi'i ddadneilltuo, yn mynd rhagddo, gan weithio gyda'ch swyddogion. Mae rhai meysydd eisoes wedi'u nodi ar gyfer newid ac mae'r gyllideb ddrafft yn nodi sut rydym yn rhesymoli ac yn ailffocysu grantiau penodol i addysg. Mae'r gwaith hwn yn parhau ac rwy'n disgwyl i fwy o newidiadau gael eu cyflwyno fel rhan o'r setliad terfynol. Byddwn yn ystyried pecynnau cynigion yn yr is-grŵp Cyllid ym mis Ionawr. Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau tryloywder ynglŷn â'r symudiadau fel y gallwch chi a phartneriaid eraill weld yn glir unrhyw newidiadau mewn cyllid yn gyffredinol.

Mae gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i fod yn flaenoriaeth i gynghorau ac i Lywodraeth Cymru. Mae ein hymrwymiad ar y cyd i sicrhau'r cyflog byw gwirioneddol i weithwyr gofal yn adlewyrchu hyn. Cafodd y costau o alluogi i awdurdodau barhau i dalu'r costau ychwanegol o gyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal eu cynnwys yn y cynnydd yn y gyllideb ddangosol a gyhoeddwyd y llynedd.

Unwaith eto, rwyf wedi penderfynu darparu'r holl gyllid sydd ar gael ymlaen llaw a pheidio â dal cyllid yn ôl ar gyfer cydnabod cynnig cyflog athrawon 2024/25 yn ystod y flwyddyn. Rhaid i waith cynllunio cyllidebau'r Awdurdodau ddarparu ar gyfer y costau hyn, felly.

Fel y cyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr, rwy'n darparu pecyn o gymorth ar gyfer ardrethi annomestig a fydd o fudd i bawb sy'n talu ardrethi yng Nghymru. Byddwn yn rhoi cap o 5% ar y cynnydd i'r lluosydd ardrethi annomestig ar gyfer 2024-25, ar gost flynyddol reolaidd o £18 miliwn. Mae hyn yn is na'r cynnydd o 6.7% a fyddai fel arall yn berthnasol.

Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi talwyr ardrethi y mae eu hatebolrwydd yn uwch yn dilyn ailbrisiad ardrethi annomestig 2023. Mae ein cynllun rhyddhad trosiannol yn parhau i gyflwyno newidiadau yn raddol ar gyfer talwyr ardrethi cymwys ar gost o £38 miliwn yn 2024-25.

Y tu allan i'r Setliad, ochr yn ochr â'r cap ar y lluosydd, byddwn yn buddsoddi £78 miliwn yn ychwanegol i ddarparu cefnogaeth i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch gyda'u biliau ardrethi annomestig am y bumed flwyddyn yn olynol. Mae hyn yn adeiladu ar y bron i

£1 biliwn o gymorth a ddarparwyd drwy ein cynlluniau rhyddhad ardrethi manwerthu, hamdden a lletygarwch ers 2020-21. Bydd talwyr ardrethi cymwys yn cael rhyddhad ardrethi annomestig o 40% drwy gydol 2024-25. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, bydd y rhyddhad yn cael ei gapio ar £110,000 fesul busnes ledled Cymru.

Rwy'n cydnabod, er bod y cyfraddau chwyddiant uchel iawn a welwyd yn ddiweddar bellach yn gostwng, eu bod yn dal i fod yn uchel o gymharu â'r 15 mlynedd diwethaf. Mae costau sylfaenol staff a gwasanaethau wedi cynyddu ac nid ydynt yn lleihau. Mae'r galw am wasanaethau, ochr yn ochr â'r pwysau yn sgil costau yn golygu y bydd angen i'ch Awdurdodau wneud penderfyniadau anodd yn ymwneud â gwasanaethau, effeithlonrwydd a'r dreth gyngor wrth bennu eich cyllidebau. Gwn y byddwch yn ceisio ymgysylltu'n ystyrlon â'ch cymunedau lleol wrth i chi ystyried y blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Nid wyf o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth Cymru osod lefel fypwyl o gynnydd yn y dreth gyngor waeth beth fo'r amgylchiadau neu ddewisiadau lleol. Bydd angen i'ch Awdurdodau ystyried yr ystod lawn o ffynonellau cyllid sydd ar gael iddynt, yn ogystal â'r pwysau sy'n eu hwynebu. Rwy'n eich annog i barhau i bwysu a mesur yn ofalus effaith y cynnydd ar gyllid aelwydydd gyda cholli cymorth a gwasanaethau. Gwn y byddwch chi fel Arweinwyr, aelodau etholedig a swyddogion ar hyd a lled Cymru yn ymdrechu i ddod o hyd i ffyrdd o wneud y defnydd gorau o adnoddau i wneud y gwahaniaeth mwyaf i'ch cymunedau.

Yn unol â'n ffocws ar y cyd ar gefnogi aelwydydd, byddwn yn parhau i gynnal hawliau llawn o dan ein Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2024-25 ac rydym unwaith eto yn darparu £244 miliwn ar gyfer y cynllun yn y Setliad i gydnabod hyn.

Cyfeiriodd Datganiad yr Hydref y Canghellor at y newidiadau i'r gyfradd SCAPE, sy'n arwain at oblygiadau ar gyfer costau cyfraniadau cyflogwyr i bensiynau athrawon a diffoddwyr tân. Mae hyn yn ei dro yn arwain at oblygiadau i gyllidebau Awdurdodau Lleol. Mae disgwyl i'r cyllid ar gyfer hyn gael ei ddarparu gan Lywodraeth y DU ond nid tan 2024-2025. Byddaf yn ysgrifennu at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys i bwysu am sicrwydd ar lefel ac amseriad y cyllid hwn. Bydd fy swyddogion yn rhoi gwybod i'ch swyddogion chi.

Amlinellais y safbwynt ar gyllid cyfalaf i Lywodraeth Cymru fel rhan o'm datganiad ar y gyllideb ddydd Mawrth. Gyda bron dim cynnydd yn y cyllid cyfalaf cyffredinol a chyllideb gyfalaf Llywodraeth Cymru 6% yn is mewn termau real na'r flwyddyn gyfredol, rwyf wedi cadw'r cyllid cyfalaf cyffredinol yr un fath ar gyfer awdurdodau lleol, sef £180 miliwn, y lefel ddangosol a osodwyd y llynedd. Gyda chostau chwyddiant cynyddol yn y sector adeiladu, gwn y bydd hyn yn golygu y bydd yn rhaid i'ch awdurdodau edrych yn ofalus ar eich rhaglenni cyfalaf a'u blaenoriaethu er mwyn parhau i fuddsoddi yn y ffordd orau o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus. Rwyf hefyd wedi parhau i ddarparu £20 miliwn o gyfalaf ym mhob blwyddyn i alluogi awdurdodau i ymateb i'n blaenoriaeth ar y cyd o ddatgarboneiddio, er mwyn parhau â'n ffocws ar gyfrannu at gynllun Cymru Sero Net. Eleni, nid wyf wedi ystyried neilltuo cyllid refeniw i gefnogi ymateb awdurdodau i'r newid yn yr hinsawdd gan gydnabod bod rhaid i'n holl benderfyniadau ystyried sut i leihau ein hallyriadau parhaus ac i ganiatáu'r hyblygrwydd mwyaf posibl i awdurdodau wneud hynny a rheoli eu cyllidebau.

Mae'r *Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol* drafft a'r tablau cysylltiedig sy'n cynnwys manylion y Setliad dros dro, yn ôl awdurdod lleol, hefyd yn cael eu cyhoeddi ar [wefan Llywodraeth Cymru](#). Mae'r tablau hyn yn cynnwys dyraniadau Cyllid Allanol Cyfun (AEF) ar gyfer pob awdurdod unigol, sy'n cynnwys Grant Cynnal Refeniw ac Ardrethi Annomestig wedi'u hailddosbarthu. Rydym hefyd yn darparu gwybodaeth am grantiau refeniw a chyfalaf sydd

wedi'u cynllunio ar gyfer 2024-25. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei diweddarau ymhellach yn y setliad terfynol.

Mae cyhoeddi'r Setliad yng nghanol mis Rhagfyr wedi ein galluogi i ddefnyddio ffigurau'r sylfaen drethu ddiweddaraf ar gyfer 2024-25, sy'n golygu na ddylid gweld unrhyw newid rhwng setliadau dros dro a setliadau terfynol o ganlyniad i ddiweddariadau i'r sylfaen drethu. Er na allaf roi sicrwydd na fydd unrhyw newidiadau eraill rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol, oherwydd yr ansicrwydd ariannol sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd, nid wyf yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r fethodoleg nac i'r data sy'n sail i ddsbarthu'r Setliad hwn.

Mae fy nghyhoeddiad heddiw yn lansio cyfnod 6 wythnos o ymgynghori ffurfiol ar y Setliad ar gyfer 2024-25. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech sicrhau bod eich ymateb yn cyrraedd erbyn **dydd Mercher, 31 Ionawr 2024** fan bellaf. Dylid anfon pob ymateb i'r ymgynghoriad hwn at:

Andrea Melvin LGFPSettlement@llyw.cymru

Gwahoddir sylwadau am yr effeithiau (boed yn gadarnhaol neu'n niweidiol) y byddai'r setliad arfaethedig yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn ogystal, rydym yn gwahodd sylwadau am b'un a ellid llunio'r setliad arfaethedig, neu ei ddiwygio, er mwyn cael effeithiau cadarnhaol, neu lai o effeithiau niweidiol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb.

Mae'n bosibl y caiff copïau o ymatebion eu rhoi yn llyfrgell Llywodraeth Cymru. Os ydych yn dymuno i'ch sylwadau aros yn gyfrinachol, dylech nodi hyn yn glir yn eich ymateb. Caiff hyn ei ystyried gan gydnabod ein rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pob ymateb sy'n dod i law erbyn y dyddiad cau cyn gwneud y penderfyniad terfynol a'i gyhoeddi.

Caiff Awdurdodau eu hatgoffa o'r gofyniad i gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol hefyd lle y bônt yn berthnasol. Dylid asesu effaith yr opsiynau cyllidebol ar gydraddoldeb a dylai hyn lywio unrhyw benderfyniadau terfynol. Yn ogystal, byddem hefyd yn disgwyl i chi ystyried effaith yr opsiynau cyllidebol ar blant a phobl ifanc.

Rhaid i awdurdodau hefyd ystyried eu dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg wrth baratoi cynlluniau ar gyfer 2024-25.

Yn gywir,



Rebecca Evans AS/MS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Gwybodaeth am y Setliad Dros Dro ledled Cymru

Awdurdod Unedol	Cyllid Allanol Cyfun Dros Dro 2024-25 £'000	Newid o 2023/24 (ar sail tebyg am debyg)	Safle
Casnewydd	302,972	4.7%	1
Caerdydd	618,958	4.1%	2
Abertawe	433,590	3.8%	3
Sir Ddinbych	194,743	3.7%	4
Merthyr Tudful	122,923	3.4%	5
Torfaen	177,988	3.3%	6
Sir Gaerfyrddin	349,441	3.3%	7
Wrecsam	231,963	3.2%	8
Bro Morgannwg	208,901	3.1%	9
Pen-y-bont ar Ogwr	257,978	3.0%	10
Powys	234,940	2.8%	11
Castell-nedd Port Talbot	284,624	2.8%	12
Rhondda Cynon Taf	484,111	2.8%	13
Ceredigion	132,715	2.6%	14
Blaenau Gwent	143,433	2.6%	15
Sir Benfro	217,999	2.5%	16
Ynys Môn	126,973	2.5%	17
Sir Fynwy	125,355	2.3%	18
Caerffili	347,726	2.3%	19
Sir y Fflint	257,555	2.2%	20
Gwynedd	232,092	2.0%	21
Conwy	202,710	2.0%	21
Cyfanswm yr awdurdodau unedol	5,689,689	3.1%	
Isaf		2.0%	
Mwyaf		4.7%	
Canolrif		2.8%	
Cyfartaledd		3.1%	

Nid yw'r tabl hwn yn adlewyrchu'r mân newidiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru i'r Setliad Dros Dro ar 11/01/24

Cyllideb 2024/25: Pwysau o ran Costau

Manylion y Pwysau o ran Costau	Gwasanaeth	CYFANSWM £'000	Sylwadau ychwanegol
1. Pwysau o ran Costau sy'n gyffredin i'r Holl / Rhan Fwyaf o Wasanaethau			
Dyfarniad Cyflog 23/24 Gweinyddol, Proffesiynol, Technegol a Chlercaidd yn erbyn Darpariaeth y Gyllideb 23/24 - Adlinio		534	Sicrhau bod gan y gyllideb sylfaenol ddarpariaeth lawn ar gyfer y Dyfarniad Cyflog 23/24 a gymeradwywyd (Gwastad £1,925 / 3.88% yn uwch na SCP 43 yn erbyn rhagdyb £1600 a gyllidebwyd). £894k gros wedi tynnu defnydd llawn o £360k Cronfa Wrth Gefn Tâl Canolog - balans yn cael ei ariannu gan gronfa wrth gefn yn 23/24
Dyfarniad Cyflog Medi 23 Athrawon yn erbyn Darpariaeth y Gyllideb 23/24 - Adlinio		365	Craidd ychwanegol 1.5% - dim cyllid gan Lywodraeth Cymru yn Setliad 24/25
Amcangyfrif Darpariaeth Dyfarniad Cyflog 24/25 Gweinyddol, Proffesiynol, Technegol a Chlercaidd		3,072	Y rhagdybiaeth ddiweddaraf yw dyfarniad cyflog gwastad o £1,200 fesul SCP. Mae hyn yn cyfateb i effaith gyfartalog o tua 4.25%, ond byddai hyn yn amrywio ar gyfer pob SCP.
Dyfarniad Cyflog Athrawon (gan gynnwys Soulbury) - Medi 23 (Effaith blwyddyn lawn) + Medi 24 (Effaith rhan o flwyddyn)		1,740	Tybiwyd effaith blwyddyn lawn Medi 2023 (5.0%) + Medi 2024 fel (4.0%)
Ailbrisio Ardrethi Annomestig Cenedlaethol 2023 / Cynnydd o 5% yn y Lluosydd		177	Effaith canlyniad Rhestr Brisio 2023 wrth i ryddhad trosiannol ostwng 33% ym mlwyddyn 2 ynghyd â chynnydd o 5% yn y Lluosydd Ardrethi Busnes ar gyfer 24/25
IS-GYFANSWM		5,888	
2. Eitemau Corfforaethol			
Ardoll Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru		497	Cynigir bod y cynnydd diweddaraf yn ardoll Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru yn 9.4%. Unwaith y caiff ei ddosrannu i Awdurdodau Lleol Cyfansoddol ar sail poblogaeth mae hyn yn gyfystyr â 12.0% ar gyfer Ceredigion (gan ddefnyddio Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2022 SYG). Mae hyn yn amodol ar benderfyniadau terfynol ar 12/02/24. Rhagdybir ymhellach y byddai gostyngiad £87k oherwydd cyllid Llywodraeth y DU o ran Pensiynau Diffoddwyr Tân yn golygu cynnydd 10.2% (sy'n cyfateb i dros 1% yn nhermau pur o ran Treth y Cyngor).
Lwfansau Aelodau		72	Mae adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol yn cynnig cynnydd o 6.3% ar gyfartaledd, yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad
Ffioedd Archwilio Allanol		22	Cynnydd arfaethedig o 6.4% gan Archwilio Cymru
Ariannu Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Benthycu â Chymorth Llywodraeth Cymru		220	
Ardoll Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru		100	Darparu cyllideb sylfaenol gan fod yr Ardoll yn gost flynyddol. Mae Cyngor Sir Powys wedi gosod swm tebyg o'r neilltu. Yn ogystal, gyda'r gwaith Cynllunio Strategol rhanbarthol ar fin dechrau, bydd arian yn cael ei neilltuo o gronfa wrth gefn y CDLI i gefnogi hyn ym Mlwyddyn 1 (£200k), ond y tu hwnt i hyn bydd angen symiau pellach yn y blynyddoedd i ddod.
Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor		-	Yn amrywio wrth i Dreth y Cyngor gynyddu
IS-GYFANSWM		911	

Cyllideb 2024/25: Pwysau o ran Costau

Manylion y Pwysau o ran Costau	Gwasanaeth	CYFANSWM £'000	Sylwadau ychwanegol
3. Pwysau o ran Costau yn ymwneud â holl Wasanaethau Gydol Oed y Pwrth			
Darpariaeth ar gyfer chwyddiant costau ar gyfer Gwasanaethau a Gomisïynir yn Allanol yn cwmpasu Cynnydd £10.90 i £12.00 yn y Cyflog Byw Gwirioneddol a Chwyddiant cyffredinol heb fod yn Staffio	Porth Gofal / Porth Cynnal	2,693	Ffactorau chwyddiant dros dro - 7.92% ar gyfer Byw â Chymorth / Gofal Cartref, 8.89% ar gyfer Gofal Preswyl a 9.57% ar gyfer Taliadau Uniongyrchol. Noder - Byddai'r ffigurau £900k yn is pe bai codiadau'n cael eu cyfyngu i £11.44 (Cyflog Byw Cenedlaethol) nid £12.00 (Cyflog Byw Gwirioneddol) yr awr
Plant sy'n Derbyn Gofal - costau Asiantaeth Faethu Annibynnol	Porth Cynnal	207	Bellach mae 22 o leoliadau Asiantaeth Faethu Annibynnol yn eu lle ar gyfartaledd o tua £52k fesul lleoliad. Bu 3 Lleoliad Asiantaeth Faethu Annibynnol ychwanegol ers pennu Cyllideb 23/24. Cyfanswm y gyllideb sylfaenol sydd ei hangen ar gyfer 24/25 = £1.14m. Mae pwysau hefyd yn cynnwys lwfans ar gyfer codiadau chwyddiant contractau o 3%.
Plant sy'n Derbyn Gofal - Codiad ar Lwfansau Llywodraeth Cymru	Porth Cynnal	55	Cynnydd amcangyfrifedig o 4% yn lwfansau gosod Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd mae lwfansau amrywiol yn daladwy mewn perthynas â 117 o blant gan gynnwys Perthynas (34), Gwarcheidiaeth Arbennig (36), Mabwysiadu (16) i Lwfansau Lletya (31). Cyfanswm y gwariant yn y maes hwn yw tua £1.4m y flwyddyn
Plant ar eu Pennau eu Hunain sy'n Ceisio Lloches	Porth Cynnal	443	Mae hyn yn adlewyrchu cost 19 o Blant sy'n Ceisio Lloches ar eu Pennau eu Hunain (1 ar goll) gyda'r Cyngor ar hyn o bryd dan y Gwasanaeth Trosglwyddo Cenedlaethol. Dyma'r diffyg wrth gymharu grant y Swyddfa Gartref o £143 y noson (Plant sy'n Derbyn Gofal) a £270 yr wythnos (Gadael Gofal) â chostau lleoliadau cyfredol gwirioneddol. Mae disgwyl i'r pwysau dyfu yn 24/25 oherwydd nifer y plant yn troi'n 18 oed ac oni bai bod modd lleihau costau eu lleoliad. Mae hwn yn faes sydd angen rhywfaint o ffocws i leihau'r gwahaniaeth rhwng yr incwm a'r gwariant
Anableddau Dysgu - Lleoliadau Sector Annibynnol/Cysylltu Bywydau/Cymorth lle bo'r angen/Seibiant	Porth Cynnal	108	Pwysau gan nifer o Wasanaethau Anabledd Dysgu oherwydd newidiadau yng ngofal a chymorth Defnyddwyr Gwasanaethau; Cymorth lle bo'r angen (£47k). Cysylltu Bywydau (£45k); Lleoliadau Preswyl (£12k) Seibiant (£4k)
Anableddau Corfforol - Lleoliadau yn y Sector Annibynnol	Porth Cynnal	132	Effaith 1 lleoliad newydd. Cyfanswm y gyllideb gros yw £333k gyda 3 lleoliad ar gost lleoliad cyfartalog o £111k.
Iechyd Meddwl - Lleoliadau Preswyl/ Byw â Chymorth/Cymorth lle bo'r angen	Porth Cynnal	142	Ar hyn o bryd mae 5 unigolyn yn aros am leoliad (cyfanswm cost amcangyfrifedig £521k), rhai yn y carchar felly nid yw'r amseru'n glir ond mae risg amlwg i'r gyllideb. Nid yw'r pwysau o ran cost a gynhwysir ond yn darparu ar gyfer cyfran o'r costau posibl.
Pobl Hŷn - Lleoliadau yn y Sector Annibynnol	Porth Cynnal	1,472	Mae hyn yn adlewyrchu cyfanswm cost blwyddyn lawn yn seiliedig ar lefel bresennol y lleoliadau. Cyfanswm gofyniad y Gyllideb Gros a amcangyfrifir yw £13m, gan adlewyrchu tua 298 o leoliadau, gyda chost lleoliadau ar gyfartaledd o £44k y flwyddyn. Fel y dangosir yn rhagolygon 23/24 bu cynnydd yn nifer y lleoliadau ers pennu cyllideb y flwyddyn gyfredol.

Cyllideb 2024/25: Pwysau o ran Costau

Manylion y Pwysau o ran Costau	Gwasanaeth	CYFANSWM £'000	Sylwadau ychwanegol
Mewnoli Cartref Gofal Hafan y Waun	Porth Gofal	1,100	Roedd adroddiad i'r Cabinet ar 04/07/23 yn amlygu diffyg posib Blwyddyn Lawn o £1.3m, ond dyrannodd swm o £1.0m o'r cronfeydd wrth gefn i gynorthwyo yn y tymor byr. Amcangyfrif o ddefnydd diweddaraf y gronfa wrth gefn hon yn 23/24 yw £566k gan adael £434k ar gael ar gyfer 24/25. Gyda chostau Blwyddyn Lawn wedi'u hamcangyfrif o £2.3m, mae angen darpariaeth cyllideb sylfaenol o £1.1m (ar ôl ystyried cyllideb gyfredol HYW o £0.8m a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn). Bydd angen monitro hyn yn ofalus a'i adolygu ymhellach ar gyfer 25/26.
Contract Tîm a Reolir o fewn Gofal wedi'i Gynllunio (Plant) + Risg i'r Gyllideb	Grŵp Arweiniol / Porth Gofal /Porth Cynnal	-	£1.3m i'w ariannu o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer y Contract Tîm a Reolir (net £300k) a'r risg o ddefnyddio staff asiantaeth (£1.0m)
x3 Cyfleusterau Plant o fewn y Sir - Costau gweithredu	Porth Gofal	1,076	Mae'r gyllideb sylfaenol bresennol yn caniatáu ar gyfer £633k o gostau, ond rhagwelir y bydd costau rhedeg blwyddyn lawn y 3 cyfleuster newydd cyntaf yn y sir tua £1.71m. Rhagwelir y bydd y strwythur staffio a ffefrir yn costio £1.94m Felly mae angen lleiafswm o £1.076m o ddarpariaeth ychwanegol yn y gyllideb
